

# Adroddiad Blynyddol

# Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

# 2025-2026

RHONDDA CYNON TAF

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad blynyddol yma'n manylu ar waith Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn ystod 2025-26. Mae hefyd yn dangos sut mae Aelodau wedi mynd ati i gefnogi proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor, cryfhau atebolrwydd a chyfrannu at wella gwasanaethau'r Cyngor er budd trigolion. Dros gyfnod blwyddyn y Cyngor, mae'r Pwyllgorau Craffu wedi parhau i chwarae rhan bwysig yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor. Drwy raglen strwythuredig sy'n cynnwys Pwyllgorau, gweithgorau a threfniadau cydweithio, mae Aelodau wedi trafod ystod eang o faterion sy'n bwysig i gymunedau ledled RhCT. Mae'r rhain wedi cynnwys meysydd gwasanaeth allweddol fel tai, addysg, trafnidiaeth, diogelwch y gymuned a threchu tlodi, ochr yn ochr â themâu trawsbynciol megis y gweithlu a phwysau ariannol.

Mae trefniadau gweithio mewn partneriaeth a chydweithio'n cynrychioli maes gwaith nodedig eleni. Mae Aelodau o bob Pwyllgor Craffu wedi trafod sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda sefydliadau allanol, cyrff rhanbarthol a phartneriaid lleol i ddarparu gwasanaethau a gwella deilliannau i drigolion. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu parhaus â'r Cydbwyllgor Corfforedig a thrafod sut y gallai penderfyniadau rhanbarthol effeithio ar y Fwrdeistref Sirol.

Mae Gweithgor Tlodi Plant y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cyflawni darn sylweddol o waith yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd y Gweithgor yma gyfle i Aelodau, swyddogion a phartneriaid ddod at ei gilydd i drin a thrafod achosion ac effaith Tlodi Plant. Arweiniodd y gwaith yma at lunio 18 o argymhellion gyda'r nod o wella ymateb y Cyngor i Dlodi Plant, sicrhau bod gwasanaethau'n fwy hygyrch i drigolion a chael gwared ar y stigma sy'n gysylltiedig â chael mynediad at y gwasanaethau hynny.

Mae gwaith craffu wedi canolbwyntio ar gyflawniad ein gwasanaethau drwy adolygu adroddiadau cyflawniad chwarterol. Mae'r Aelodau wedi trafod meysydd risg ac wedi ceisio sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd lle bo angen. Mae hyn wedi cynnwys trafodaeth fanwl am faterion penodol, fel Tai Amlfeddiannaeth a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol, gan sicrhau bod gwersi'n cael eu nodi a chamau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith.

Mae'r Pwyllgorau Craffu thematig wedi sicrhau bod meysydd gwasanaeth allweddol wedi bod yn destun gwaith craffu. Mae hyn wedi cynnwys trafod materion Addysg Ddewisol yn y Cartref, lle trafododd yr Aelodau ddull y Cyngor o ran diogelu a chefnogi dysgwyr y tu allan i addysg brif ffrwd; goruchwylio trefniadau gweithio mewn partneriaeth trwy graffu ar waith Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf; a chynnal adolygiad mewn perthynas â'r gwaith o weithredu'r newidiadau i'r terfyn cyflymder 20mya ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r meysydd yma'n dangos cwmpas y gwaith craffu ar draws yr holl Bwyllgorau a'u rôl wrth ddarparu her briodol ar draws ystod amrywiol o wasanaethau'r Cyngor.

Mae'r Pwyllgorau Craffu wedi parhau i ddarparu man agored lle mae modd cynnal trafodaeth a dadl adeiladol. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod a chaiff pob cyfarfod ei ddarlledu'n fyw ar wefan y Cyngor. Mae'r cyfarfodydd wedi rhoi cyfle i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu herio Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion mewn sefyllfa agored, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau a'r rhesymeg dros wneud penderfyniad yn destun her briodol. Cafodd swyddogaeth Graffu'r Cyngor ei thrafod hefyd yn rhan o Asesiad Perfformiad Panel, a ddarparodd sicrwydd o ran effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Nododd y Panel fod y Pwyllgorau Craffu yn cael cymorth effeithiol a bod modd i Aelodau gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i gyflawni eu rolau'n effeithiol. Nododd hefyd fod her ***"yn cael ei chroesawu gan aelodau o Weithrediaeth a swyddogion y Cyngor"*** a bod ymateb cadarnhaol i argymhellion y Pwyllgorau Craffu a thystiolaeth glir o gamau dilynol. Fe glywodd y panel gan

Aelodau o bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol fod craffu yn cael ei gymryd o ddifrif, gan nodi "***bod cydbwysedd priodol rhwng craffu ar benderfyniadau cyn ac ar ôl eu gwneud".*** Daeth yr asesiad i'r casgliad bod ***"trefniadau craffu a sicrwydd y Cyngor yn gryf ac yn effeithiol"*** a'u bod nhw wedi'u hategu gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng Aelodau a swyddogion ac ymrwymiad cyffredin i wella.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd y Pwyllgorau Craffu yn parhau i ddatblygu'r gwaith yma a byddan nhw'n parhau i ganolbwyntio ar y materion sydd fwyaf pwysig i drigolion ac yn addasu ei ddull lle bo angen i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio parhaus rhwng Pwyllgorau lle bo'n briodol ac ymgysylltu â phartneriaid i sicrhau bod craffu'n parhau i ychwanegu gwerth mewn ffordd sy'n adeiladol ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau.

At ei gilydd, mae'r gwaith sydd wedi'i gyflawni yn ystod blwyddyn 2025-26 y Cyngor yn dangos uned graffu sy'n ymgysylltu'n rhagweithiol ac sydd wedi ymrwymo i gefnogi trefniadau llywodraethu da a deilliannau gwell i gymunedau ledled RhCT.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | 2 - 3 |
| **Rhagair y Cadeirydd** | 5 |
| **Beth yw Craffu?** | 6 |
| **Cyflwyniad** | 7 - 8 |
| **Cipolwg ar waith Craffu** | 9 |
| **Craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad** | 10 |
| **Datblygu Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu a'u cyflawni** | 11 |
| **Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** | 12 – 17 |
| **Gwaith y Pwyllgorau Craffu Thematig:**<br>• Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant<br>• Y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned<br>• Y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant | <br>18 – 21<br>22 – 27<br>28 - 32 |
| **Ymgysylltu ag Aelodau'r Cabinet** | 33 |
| **Gweithgorau Craffu**<br>• Gweithgor Tlodi Plant<br>• Gweithgor Craffu - Cymunedau Dysgu Cynaliadwy<br>• Gweithgor Diffibrilwyr | <br>34<br>35<br>36 |
| **Cydbwyllgorau Craffu**<br>• Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg<br>• Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cydbwyllgor Corfforedig | <br>37<br>38 |
| **Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Partneriaid a Rhanddeiliaid** | 39 |
| **Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu** | 40 - 41 |
| **Ymchwil a Chraffu** | 42 |
| **Edrych Ymlaen at 2026-2027** | 43 |
| **Rhestr Atodiadau**<br>• Aelodaeth Pwyllgorau Craffu 2025-26<br>• Rhestr Termau<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Fersiwn Hawdd ei Darllen | <br>44<br>44<br>44 |

# Rhagair y Cadeirydd



Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer 2025–2026. Mae'r adroddiad yma'n cynnig amlinelliad o flwyddyn llawn craffu adeiladol ac eang ei gwmpas, lle mae'r Pwyllgorau wedi parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi proses gwneud penderfyniadau agored, atebol, ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym mhob rhan o Gyngor RhCT.

Eleni, rydyn ni wedi cyflawni rhaglen waith gynhwysfawr, gan ddarparu goruchwyliaeth ar faterion craidd fel cyllid a chyflawniad. Fe wnaethon ni graffu ar yr adroddiadau cyflawniad chwarterol a rhoi adborth manwl ar Gam 1 a 2 o broses ymgynghori ar gyllideb ddrafft 2026/2027 y Cyngor. Mae ein gwaith rhag-graffu wedi helpu i lunio cynlluniau a pholisïau'r Cyngor, gan gynnwys y model gweithredu ar gyfer darparu gofal seibiant i bobl ag anabledd dysgu 'Fy Seibiant i, Fy Newis i', y model cymorth newydd arfaethedig i gynhalwyr di-dâl a'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae (PSA) a drafft terfynol o'r cynllun gweithredu, cyn i'r Cabinet fynd ati i'w drafod, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae ein trefniadau craffu wedi'u hymgorffori'n rhan o ddiwylliant craffu cryf, sy'n cael eu cefnogi gan yr Adain Weithredol ac Uwch Reolwyr y Cyngor.

Cafodd swyddogaeth graffu'r Cyngor ganmoliaeth uchel yn adroddiad terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel, a gynhaliwyd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng 7 a 10 Hydref 2025. Nododd y panel fod gan y Cyngor '***swyddogaethau craffu a sicrwydd sy'n cael eu cefnogi'n dda'*** **a bod ''her' yn cael ei chroesawu gan aelodau o Weithrediaeth a swyddogion y Cyngor'.** A minnau'n Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, roeddwn i'n arbennig o falch i weld bod y Panel wedi nodi '**bod yna ymateb cadarnhaol i argymhellion gan craffu gyda thystiolaeth o gamau dilynol mewn grym'.** Daeth y panel i'r casgliad bod trefniadau Craffu'r Cyngor yn '***gryf ac effeithiol***' sy'n adlewyrchu gwaith caled a dull cadarnhaol Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgorau Craffu yn eu meysydd priodol. Rydyn ni'n parhau i annog trigolion a rhanddeiliaid i ddweud eu dweud yn rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor drwy gynnig nifer o ddulliau gwahanol, a byddwn ni'n parhau i'w hannog yn y flwyddyn nesaf fel bod modd i ni ehangu ein safbwyntiau a gwella atebolrwydd.

Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad, mae tri Gweithgor Craffu wedi cynnal adolygiadau cryf a manwl sydd wedi arwain at lunio argymhellion teilwng. Roedd hi'n fraint cael cyfle i fod yn rhan o un o'r adolygiadau yma, sef Gweithgor Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Aeth y Gweithgor yma ati i drafod sut y gallai'r Cyngor arfer ei bwerau i gefnogi plant a theuluoedd sy'n cael eu heffeithio gan dlodi yn well.
Hoffwn i ddiolch i'r Aelodau, swyddogion a phartneriaid sydd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgorau Craffu a'u cefnogi yn ystod y flwyddyn. Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yma'n eich helpu i ddeall gwaith a gwerth craffu yn RhCT a'i fod yn tanio'ch brwdfrydedd i gymryd rhan.

J Edwards
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

# Beth yw Craffu?

Mae craffu yn rhan sylfaenol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod proses y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau'n dryloyw, yn atebol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gweithredu er budd trigolion Rhondda Cynon Taf.

Yn ei hanfod, mae craffu yn caniatáu i Gynghorwyr nad ydyn nhw'n Aelodau o'r Cabinet fynd ati i drin a thrafod gwaith y Cyngor a'i bartneriaid, dylanwadu ar bolisïau, llywio penderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud (rhag-graffu), a herio cyflawniad lle bo angen. Mae'n darparu cyfle i gynnal trafodaeth gadarn, her adeiladol a goruchwyliaeth ddemocrataidd.

Mae craffu yn swyddogaeth statudol. Yn unol â **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** a **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith i graffu ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud neu'u cynnig gan y Cabinet ac i adolygu effeithiolrwydd polisïau, strategaethau a gwasanaethau.

Mae hyn yn cynnwys gofyniad i:

- Hyrwyddo gwelliannau o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu
- Monitro cyflawniad y Cyngor
- Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu polisïau

Mae **Cylch Gorchwyl** pob un o'r Pwyllgorau Craffu yn amlinellu cylch gwaith a chyfrifoldebau'r pedwar Pwyllgor Craffu, **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** cyffredinol a thri Phwyllgor thematig, sef **Addysg a Chynhwysiant**, **Gwasanaethau Cymuned** a **Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant**

Mae'r swyddogaeth graffu yn Rhondda Cynon Taf hefyd yn fecanwaith allweddol y mae'r Cyngor yn ei defnyddio i gyflawni ei ddyletswyddau o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i weithio mewn ffordd fwy cynaliadwy a hirdymor, ac i ystyried effaith eu penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol. Mae gwaith craffu yn cyfrannu at y ddyletswydd yma drwy:

- Herio gwasanaethau i fabwysiadu'r pum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys)
- Adolygu i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd yn erbyn ei Amcanion Llesiant
- Sicrhau bod penderfyniadau a pholisïau'n adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned.
- Dwyn cyrff cyhoeddus, gan gynnwys partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), i gyfrif o ran sut maen nhw'n cydweithio i wella lles lleol

# Cyflwyniad

Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnig crynodeb o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni gan swyddogaeth Graffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ystod blwyddyn 2025-26 y Cyngor. Mae'n tynnu sylw at gyfraniad y Pwyllgorau Craffu o ran gwneud penderfyniadau lleol, y deilliannau a gyflawnwyd o ganlyniad i'w hargymhellion, a'r ffyrdd y mae'n parhau i ddiwallu anghenion Aelodau, trigolion a phartneriaid.

Mae craffu yn elfen graidd o fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gan ddarparu goruchwyliaeth annibynnol a democrataidd mewn perthynas â phenderfyniadau'r Cabinet. Mae'n sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn atebol i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Drwy gyfleoedd cwestiynu cadarn, trefniadau monitro cyflawniad a chyfleoedd i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a phartneriaid, mae gwaith craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'n effeithiol, bod gwasanaethau'n darparu gwerth am arian, a bod llais y cyhoedd yn cael ei glywed.

Yma yn Rhondda Cynon Taf, mae'r swyddogaeth graffu yn cael ei chyflawni drwy bedwar prif Bwyllgor:

- Mae'r **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n** cyflawni rôl gydlynu, yn goruchwylio cyflawniad corfforaethol, ac yn ymgymryd â gwaith craffu trawsbynciol a strategol
- Mae'r **Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned** yn trin a thrafod gwasanaethau fel gofal cymdeithasol i oedolion, iechyd y cyhoedd a thai
- Mae'r **Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant** yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â gwella ysgolion, cynhwysiant, cyfranogiad pobl ifainc a deilliannau dysgwyr
- Mae'r **Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant** yn mynd i'r afael â thrafnidiaeth, gwasanaethau'r amgylchedd, adfywio ac ymateb y Cyngor i'r argyfwng hinsawdd

Mae pob Pwyllgor yn pennu eu Rhaglenni Gwaith eu hunain. Mae'r rhain yn cael eu datblygu yn rhan o weithdai gyda'r Aelodau, trwy ymgysylltu â'r cyhoedd a gan ystyried blaenraglen waith y Cabinet. Mae gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rôl allweddol hefyd wrth gydlynu a chymeradwyo gwaith y tri phwyllgor thematig er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau trefn strategol.

Mae craffu yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi trefniadau llywodraethu da ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae'n darparu cyfleoedd gwirio a chydbwyso i'r adain weithredol ac yn sicrhau bod penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, yn destun her ddemocrataidd a'u bod nhw'n adlewyrchu anghenion y cyhoedd. Mae'n cryfhau atebolrwydd drwy:

- Dwyn Aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion i gyfrif o ran sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a chyflawniad y Cyngor
- Adolygu effeithiolrwydd polisïau a strategaethau
- Archwilio sut mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau
- Gwneud argymhellion adeiladol ar gyfer gwella

Mae'r swyddogaeth graffu hefyd yn cefnogi cyfrifoldebau ehangach y Cyngor o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy herio sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud gyda golwg ar ddeilliannau hirdymor, cynaliadwyedd, cydweithio ac atal. Mae gwaith

craffu yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn ystyried effaith ehangach ei benderfyniadau, nid yn unig ar gyfer trigolion heddiw, ond ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad yma'n amlinellu sut mae gwaith craffu yn RhCT wedi parhau i esblygu fel swyddogaeth dan arweiniad Aelodau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cefnogi deilliannau gwell i bobl a chymunedau Rhondda Cynon Taf.

## Cipolwg ar Waith Craffu

3 Grŵp Gorchwyl a Gorffen

11 o Gyfarfodydd Rhag-graffu

31 o Gyfarfodydd Pwyllgor Craffu

131 o Argymhellion

Ymgysylltwyd â 27 o Bartneriaid Allanol

Anfonwyd 11 o Lythyrau at y Cabinet

# Craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad

Eleni mae'r Pwyllgorau Craffu wedi trafod cydbwysedd da o faterion craffu cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad, gan ddylanwadu ar y penderfyniad o safbwyntiau gwahanol. Mae craffu ar faterion cyn ac ar ôl gwneud penderfyniad trwy gydol blwyddyn y Cyngor yn dangos yr ystod eang o strwythurau sydd ar waith a bod angen cynllunio a rhaglennu effeithiol i sicrhau allbwn o waith craffu.

**Tabl 1**

| | Math o Graffu | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhag-graffu | 10 | 18.8% |
| 2 | Monitro/Rheoli Cyflawniad | 11 | 20 % |
| 3 | Datblygu Polisïau | 13 | 23.6 % |
| 4 | Sesiynau Gwybodaeth a Diweddariadau | 12 | 21.8% |
| 5 | Ymgynghoriadau | 9 | 16.3 % |
| | **Cyfanswm** | **55** | |

Mae'r broses rag-graffu wedi darparu adborth mewn perthynas â nifer o faterion yn ystod Blwyddyn y Cyngor eleni, ac mae'r adborth yma wedi'i gofnodi mewn llythyr fel bod modd i'r Cabinet ei drafod er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder. Mae hefyd yn golygu bod modd i aelodau'r cyhoedd olrhain a monitro'r dogfennau yma, sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae modd i'r Pwyllgorau Craffu fwrw golwg ar ymatebion i ddeall a oes unrhyw argymhellion wedi'u derbyn, eu gwrthod neu a oes angen gweithredu ymhellach.

Mae gan Adain Weithredol a Phwyllgorau Craffu'r Cyngor ddealltwriaeth gyffredin sy'n ceisio gwella tryloywder ac atebolrwydd. Nodwyd hyn fel arfer da yn yr adroddiad terfynol yn dilyn Asesiad Perfformiad Panel o'r Cyngor a gynhaliwyd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhwng 7 a 10 Hydref 2025. Yn yr adroddiad terfynol, cydnabu'r Panel fod ***'cydbwysedd priodol rhwng craffu ar benderfyniadau cyn ac ar ôl eu gwneud gydag ychydig o waith i gefnogi datblygu polisi hefyd yn cael ei wneud'.*** Mae sicrhau cydbwysedd da rhwng craffu ar benderfyniadau cyn ac ar ôl eu gwneud yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhaglenni gwaith a deilliannau yn adlewyrchu proses gwneud penderfyniadau gadarn a thryloyw.

Mae'r Cyngor yn parhau i wella cyfleoedd craffu er mwyn llywio a gwneud sylwadau ar benderfyniadau strategol allweddol y Cyngor ac, yn hollbwysig, caiff y dull yma ei hwyluso a'i gefnogi drwy flaengynllunio rhaglenni gwaith y Cyngor. Mae rhaglen waith y Cabinet bellach yn eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae modd dod o hyd i enghreifftiau o'r ddwy agwedd ar waith craffu yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu trwy fynd i'r adrannau unigol ar gyfer pob Pwyllgor Craffu thematig. Mae'r adrannau yma'n cynnig crynodeb a chipolwg ar y gwaith craffu a gynhaliwyd trwy gydol Blwyddyn 2025-2026 y Cyngor.

# Datblygu Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu a'u Cyflawni

Cafodd dull y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o ran pennu rhaglenni gwaith ei ddatblygu ymhellach yn 2025-26, gan arwain at broses fwy cadarn a chynhwysol sydd wedi'i halinio'n strategol. Cafodd rhaglen eleni ei llywio gan fodel cryfach dan arweiniad Aelodau, wedi'i gefnogi gan ddata cyflawniad, blaenoriaethau'r Cabinet ac adborth y cyhoedd. Roedd hyn wedi sicrhau bod yr agenda craffu yn parhau i fod yn berthnasol, yn amserol ac yn effeithiol.

Cynhaliodd swyddogion nifer o weithdai rhaglen waith gyda'r holl Bwyllgorau Craffu, gan roi cyfle i Aelodau drafod tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys data cyflawniad, adroddiadau'r Cabinet ac adolygiadau gwasanaeth. Roedd y sesiynau yma hefyd yn gyfle i Aelodau gynnig materion i'w trafod, gan ddefnyddio Ffurflen Meini Prawf Awgrymiadau'r Aelodau a oedd yn sicrhau bod cynigion yn cyd-fynd ag egwyddorion craffu da, gan gynnwys budd y cyhoedd a gwerth ychwanegol, ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Mae'n bwysig nodi bod y Pwyllgorau wedi ystyried hyblygrwydd er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw ymateb i faterion sy'n codi trwy gydol y flwyddyn. Parhaodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyflawni rôl gydlynu, gan sicrhau nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu gan y Pwyllgorau Craffu thematig a bod capasiti'r Pwyllgorau Craffu'n cael ei adolygu a'i reoli mewn modd effeithiol.

Mae gwaith rhag-graffu wedi parhau i fod yn elfen allweddol o'r Rhaglenni Gwaith, gyda'r Pwyllgorau'n mynd ati i nodi penderfyniadau sydd i'w hystyried gan y Cabinet lle gallai cyfleoedd cynnar i ymgysylltu â'r Aelodau wella'r gwaith datblygu polisi a'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau. Cafodd y Rhaglenni Gwaith eu llywio ymhellach gan ymgynghoriad cyhoeddus, a oedd yn cynnwys gwaith ymgysylltu wedi'i dargedu gyda'r undebau llafur a'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn, arweiniodd adborth y grwpiau yma at gynnwys pynciau yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd â staff y Cyngor, gan gydnabod bod llawer o weithwyr yn byw yn RhCT ac felly mae modd iddyn nhw roi gwybodaeth leol werthfawr inni. Roedd y Fforwm Ieuenctid hefyd yn rhan o'r broses Graffu, cafodd y Fforwm gyfle i drafod y materion i'w cynnwys yn rhan o'r rhaglen waith mewn cyfarfodydd diweddar. Bydd gofyn iddyn nhw gyflawni arolwg hefyd i gasglu rhagor o argymhellion. Cydnabuwyd hefyd y gall cyfarfodydd Pwyllgor ffurfiol fod yn rhwystr i ymgysylltu mewn democratiaeth ar gyfer pobl ifainc, felly cynhelir sesiynau ymgysylltu y tu allan i gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu cyfarfodydd ychwanegol, yn rhan o'i rôl hollgyffredinol, fel bod modd mynd i'r afael â'r holl waith angenrheidiol yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd y sesiynau ychwanegol yma gyfle i'r Pwyllgorau roi sylw dyledus i faterion blaenoriaeth uchel heb gyfaddawdu ar fanylder y gwaith craffu. Mae dull y Pwyllgor o lunio Rhaglenni Gwaith yn adlewyrchu'r diwylliant craffu sy'n datblygu o hyd dan arweiniad Aelodau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ymateb i lais y gymuned.

# Gwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn goruchwylio swyddogaeth graffu'r Cyngor ac yn chwarae rôl ganolog wrth sicrhau bod gwaith craffu wedi'i gynllunio'n dda, yn gymesur ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio gwaith y Pwyllgorau Craffu thematig gan sicrhau bod eu rhaglenni gwaith wedi'u halinio ac yn mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol y Cyngor.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yma'n cydlynu gwaith y pedwar Pwyllgor Craffu, ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo'r Rhaglenni Gwaith a gaiff eu llunio gan y tri Phwyllgor Craffu thematig. Nod hyn yw cydlynu'r holl raglenni gwaith fel bod modd eu cyflawni'n effeithlon a sicrhau eu bod nhw'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Os oes rhywbeth sy'n codi o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Craffu, bydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn penderfynu pa Bwyllgor ddylai fynd i'r afael â'r mater. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am alw ceisiadau i mewn. Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth am Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yma.

## Monitro Cyflawniad Chwarterol

Yn ystod Blwyddyn y Cyngor, cynhaliodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu waith craffu mewn perthynas ag adroddiadau cyflawniad corfforaethol y Cyngor, gan gynnwys cyflawniad ariannol a gweithredol, iechyd sefydliadol a rheoli risg strategol. Rhoddodd y gwaith craffu yma sicrwydd i Aelodau o ran darparu gwasanaethau gan sicrhau ein bod yn nodi ac yn mynd i'r afael â phwysau a risgiau sy'n dod i'r amlwg cyn gynted ag y bo modd.

Cafodd y gwaith craffu effeithiol yma mewn perthynas ag adroddiadau cyflawniad ei ganmol yn yr Asesiad Perfformiad Panel, a nododd fod Pwyllgorau Craffu ***'hefyd yn defnyddio'r adroddiadau perfformiad i ddylunio eu rhaglenni gwaith eu hunain'***. Roedd y gwaith yma wedi'i gyflawni o ganlyniad i allu'r Pwyllgorau Craffu i gyfrannu at werthuso a rheoli cyflawniad mewn modd effeithiol. ***'Gwelodd y panel dystiolaeth o welliant parhaus ar draws gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor wedi ei hwyluso gan ymagwedd sydd wedi ei gwreiddio tuag at newid'.***

Roedd trafodaethau'r Pwyllgor am adroddiadau cyflawniad chwarterol yn cynrychioli cam cyntaf dull craffu ehangach wedi'i gydlynu. Ar ôl trafod pob adroddiad, cafodd materion allweddol a oedd yn peri pryder eu nodi a'u rhannu â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu thematig y Cyngor. Roedd hyn wedi rhoi cyfle i Aelodau ar draws yr holl Bwyllgorau Craffu drafod materion cyflawniad yn fanylach, gan gryfhau effaith gyffredinol y gwaith craffu ar draws yr awdurdod.

Aeth Aelodau ati i herio cyflawniad yn rheolaidd, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion, capasiti'r gweithlu, absenoldeb oherwydd salwch, a'r risgiau ariannol sy'n deillio o newidiadau polisi cenedlaethol. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd hefyd fod meysydd risg uchel yn cael eu rheoli a'u monitro'n weithredol, a bod trefniadau adrodd ar gyflawniad yn adlewyrchu cynnydd a heriau parhaus o fewn y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, ymrwymodd swyddogion i wella data cymharol o flwyddyn i flwyddyn, gan ddarparu gwybodaeth gliriach lle mae cyflawniad yn cael ei ddylanwadu gan bartneriaid allanol, a gwella'r wybodaeth am gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â rheoli'r gweithlu a risg sy'n cael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol. Defnyddiodd Aelodau'r wybodaeth am gyflawniad hefyd i nodi eitemau y byddai modd craffu arnyn nhw yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn destun adolygiad pellach gan y Pwyllgorau Craffu priodol.

Yn ogystal â hyn, manteisiodd y Pwyllgor ar y trefniadau adrodd ar gyflawniad i ddwyn y Cyngor i gyfrif mewn perthynas â chynllunio hirdymor a threfniadau llywodraethu, gan gynnwys craffu ar ymateb y Cyngor i argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Heriodd yr Aelodau absenoldeb cerrig milltir clir lle'r oedd camau gweithredu wedi'u "derbyn mewn egwyddor", gan geisio sicrwydd y byddai cynnydd yn cael ei fonitro drwy drefniadau rheoli cyflawniad presennol, gan atgyfnerthu trefniadau sicrhau tryloywder.

## Effaith Craffu ar Adroddiadau Cyflawniad

- Cryfhau atebolrwydd ar draws y swyddogaeth graffu
- Gwella ansawdd a thryloywder o ran adrodd ar gyflawniad
- Sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi'n gynnar a'u huwchgyfeirio lle bo angen
- Dylanwadu ar sut mae risgiau strategol yn cael eu monitro a'u hadrodd
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng cyflawniad, cynaliadwyedd ariannol a gwneud penderfyniadau
- Llywio blaenoriaethau craffu ar gyfer y dyfodol
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, yn hytrach na chydymffurfiaeth

## Proses Ymgynghori ar y Gyllideb

Yn rhan o'i gylch gorchwyl, chwaraeodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu rôl ganolog wrth graffu ar strategaeth y gyllideb y Cyngor yn ystod Cam 1 a Cham 2 o'r broses ymgynghori. Croesawodd Aelodau'r cyfle i gynnal gwaith ymgysylltu cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, gan gydnabod bod sicrhau cyfleoedd amserol i gymryd rhan mewn gwaith craffu yn hanfodol wrth lunio cyllideb wedi'i mantoli.

Yn ystod cam 1, aeth y Pwyllgor ati i drafod y sefyllfa gyllidebol gynnar a'r pwysau sylweddol y mae'r Cyngor eu hwynebu. Roedd y rhain yn cynnwys costau cynyddol, cynnydd yn y galw am wasanaethau fel gofal cymdeithasol ac addysg, ac ansicrwydd economaidd ehangach.

Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd diogelu gwasanaethau rheng flaen hanfodol lle bynnag y bo modd a sicrhau bod penderfyniadau o ran gwariant yn parhau i adlewyrchu'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Pwysleisiodd yr Aelodau hefyd y dylid rhoi gwybodaeth glir a gonest i drigolion am sefyllfa ariannol y Cyngor, fel eu bod yn deall pam mae cynigion penodol yn cael eu cyflwyno.

Yn ystod trafodaeth y Pwyllgor am gam 2, adolygodd yr Aelodau ganlyniadau'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ynghyd â'r cynigion wedi'u diweddaru. Er bod yr Aelodau'n croesawu'r cyfle i drigolion rannu eu barn, codwyd pryderon ynghylch y nifer gymharol isel o ymatebion a dderbyniwyd a chwestiynodd yr Aelodau a oedd yr ymgynghoriad wedi bod mor bellgyrhaeddol â phosibl.

Tynnodd yr Aelodau sylw at y ffaith y gall penderfyniadau ynglŷn â'r gyllideb gael effaith wirioneddol ar fywydau pobl a'i bod yn arbennig o bwysig clywed gan y rhai a allai gael eu heffeithio fwyaf. Trafododd y Pwyllgor yr angen i gryfhau trefniadau ymgysylltu â'r gymuned a gweithio'n agosach gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol i annog ymgysylltiad a chyfranogiad ehangach. Trafododd y Pwyllgor hefyd y pwysau ariannol parhaus o fewn ysgolion, yn enwedig mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, a cheisiodd yr Aelodau sicrwydd y byddai'r pwysau yma'n parhau i gael eu monitro'n agos. Dywedodd yr Aelodau fod yn rhaid cynnwys mesurau atal ac ymyrraeth gynnar yn rhan o ddull y Cyngor mewn perthynas â rheoli cyllid.

Yn dilyn eu trafodaethau ar draws y ddau gyfarfod ar y gyllideb, lluniwyd yr **argymhellion** canlynol:

- **Gwella Ymgysylltiad â'r Cyhoedd**: Dylai ymgynghoriadau ar y gyllideb yn y dyfodol gynnwys mwy o waith allgymorth wedi'i dargedu, gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a phartneriaethau lleol i sicrhau ystod ehangach o safbwyntiau, gan eu cynrychioli nhw'n well. Dylai dulliau ymgysylltu fod yn glir, yn hygyrch ac yn hawdd eu deall
- **Darparu Gwybodaeth Gliriach i Drigolion:** Dylid cyflwyno gwybodaeth am y gyllideb mewn ffordd syml a thryloyw, er mwyn helpu trigolion i ddeall y pwysau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig.
- **Cynnal Ffocws ar Fesurau Atal a Chynaliadwyedd Hirdymor**: Pwysleisiodd y Pwyllgor y byddai buddsoddi mewn mesurau atal a chydnerthedd y gymuned yn helpu i leihau pwysau ar wasanaethau yn y dyfodol a dylid parhau i flaenoriaethau'r materion yma.
- **Monitro Pwysau ar Gyllideb Ysgolion**: Dylid parhau i lunio adroddiadau mewn perthynas â chyllideb ysgolion, yn enwedig o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol, a hynny er mwyn sicrhau bod heriau sy'n dod i'r amlwg yn cael sylw'n brydlon.

## Effaith Gwaith Craffu

Arweiniodd cyfraniad y Pwyllgor at sicrhau bod cynigion yr Adain Weithredol yn destun her agored ac adeiladol *cyn* mynd ati i wneud penderfyniadau terfynol. Llwyddodd y gwaith craffu i gryfhau'r ffocws ar ymgysylltu â'r cyhoedd, tryloywder a chynllunio hirdymor, gan helpu i sicrhau bod penderfyniadau mewn perthynas â'r gyllideb yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol go iawn ac anghenion cymunedau lleol.

## Adroddiadau Llifogydd Adran 19

Yn ystod blwyddyn y Cyngor, parhaodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i fonitro ymateb y Cyngor i'r digwyddiadau llifogydd sylweddol drwy drafod adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd Adran 19 a luniwyd o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Archwiliodd yr adroddiadau yr hyn a achosodd y digwyddiadau llifogydd, rolau a chyfrifoldebau'r awdurdod a'r cyrff allanol dan sylw, a nododd hefyd gyfleoedd i leihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Croesawodd yr Aelodau'r ymchwiliadau manwl a gynhaliwyd gan swyddogion a manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ddefnyddio'r adroddiadau i geisio sicrwydd y byddai gwersi'n cael eu dysgu o bob digwyddiad. Trafododd y Pwyllgor amgylchiadau pob un o'r digwyddiadau llifogydd, gan gynnwys cyflwr a chapasiti'r seilwaith draenio, perfformiad systemau draenio'r priffyrdd, ac effaith amodau tywydd eithafol. Tynnodd yr Aelodau sylw hefyd at bwysigrwydd deall sut mae gwahanol asiantaethau'n cydweithio yn ystod llifogydd, gan gynnwys y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a rhanddeiliaid eraill, roedd Aelodau'n falch felly o glywed gan Dŵr Cymru yn ystod y cyfarfod.

## Deilliannau

- **Gwell tryloywder ac atebolrwydd –** Adolygodd yr Aelodau ganfyddiadau'r ymchwiliadau i sicrhau bod yr hyn sydd wedi achosi digwyddiadau llifogydd wedi'u harchwilio'n llawn a bod rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau perthnasol wedi'u nodi.

- **Defnyddio'r hyn a ddysgwyd i lywio gwaith yn y dyfodol –** Cafodd y Pwyllgor sicrwydd y byddai canfyddiadau'r argymhellion a nodwyd yn dilyn yr ymchwiliadau yn cael eu defnyddio i lywio gwaith rheoli perygl llifogydd yn y dyfodol, gan gynnwys rhaglenni cynnal a chadw a chynllunio seilwaith tymor hwy.
- **Trefniadau gweithio mewn partneriaeth cryfach –** Tynnodd y Pwyllgor Craffu sylw at bwysigrwydd trefniadau cydweithio parhaus â phartneriaid fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru, lle mae cyfrifoldebau dros seilwaith draenio a dŵr yn cael eu rhannu.
- **Cyfathrebu gwell gyda'r gymuned –** Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd rhoi gwybod i gymunedau sydd wedi'u heffeithio am y cynnydd sydd wedi'i wneud a deilliannau unrhyw waith ymchwilio a'r camau gweithredu perthnasol.

## Safonau Tai Amlfeddiannaeth (HMO)

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ddull y Cyngor o reoleiddio Tai Amlfeddiannaeth ac effeithiolrwydd y drefn arolygu a thrwyddedu bresennol o ran sicrhau safonau iechyd a diogelwch priodol i drigolion. Diffiniodd yr adroddiad y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth, y broses o weithredu Cynllun Trwyddedu Ychwanegol y Cyngor ledled y sir a'r gwaith ymarferol a wnaed gan swyddogion i fonitro'r safonau ac ymateb i'r materion sy'n codi o fewn y sector rhentu preifat.

Nododd y Pwyllgor y lefel sylweddol o waith arolygu a monitro a gafodd ei gynnal gan y Garfan Safonau Tai, gan gynnwys arolygiadau blynyddol o eiddo trwyddedig a gwirio tai amlfeddiannaeth sydd dan amheuaeth o weithredu heb drwydded. Cafodd y gwaith yma ei gefnogi gan dystiolaeth a gasglwyd gan wasanaethau'r Cyngor a thrwy waith ymgysylltu â chymunedau lleol.

Dangosodd yr adroddiad y rôl bwysig y mae'r gyfundrefn drwyddedu yn ei chwarae wrth gynnal safonau eiddo ac amddiffyn tenantiaid. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Aelodau yn dangos bod sawl eiddo a oedd wedi cyflwyno cais am drwydded ddim yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Amlygodd hyn yr angen am drefniadau rheoleiddio ac arolygu parhaus i wella safonau.

Trafododd yr Aelodau amrywiaeth o faterion gan gynnwys safonau eiddo, trefniadau rheoli diogelwch tân, addasrwydd mannau a rennir o fewn eiddo ac effaith ehangach Tai Amlfeddiannaeth ar gymunedau lleol megis rheoli gwastraff. Trafododd yr Aelodau hefyd y berthynas rhwng cynllunio a thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, gyda'r Aelodau'n cydnabod bod Tai Amlfeddiannaeth yn cael eu defnyddio fwyfwy fel llety hirdymor yn hytrach na llety myfyrwyr. Roedd yr Aelodau o'r farn bod polisi cynllunio a chanllawiau cynllunio atodol yn chwarae rhan bwysig wrth reoli nifer y Tai Amlfeddiannaeth o fewn cymunedau a sicrhau safonau llety priodol.

## Deilliannau

- Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith sydd wedi'i gynnal rhwng y Cynghorau gan y Carfanau Safonau Tai, Cynllunio, Gofal y Strydoedd, partneriaid diogelwch y gymuned a rhanddeiliaid lleol er mwyn rheoleiddio Tai Amlfeddiannaeth ac ymateb i bryderon y gymuned. **Argymhellir** trefniadau cydweithio lle bo modd.

- Tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd mesurau gorfodi rhagweithiol parhaus ac roedden nhw'n **cefnogi'r** gwaith arolygu sy'n cael ei gynnal i sicrhau bod eiddo'n parhau i gydymffurfio â'r safonau gofynnol .

- **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor, yn benodol i archwilio materion sy'n ymwneud â Thai Amlfeddiannaeth o safbwynt cynllunio, gan gynnwys effeithiolrwydd rheolaethau cynllunio a rôl canllawiau cynllunio atodol wrth reoli datblygiad a nifer y Tai Amlfeddiannaeth ledled y Fwrdeistref Sirol.

## Cludiant o'r cartref i'r ysgol

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerodd y Pwyllgor â darn o waith ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant i adolygu'r cynnydd cynnar o ran rhoi'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar waith. Rhoddodd hyn gyfle i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu gydweithio ar i drin a thrafod p sy'n berthnasol i sawl maes gwasanaeth ac sy'n effeithio ar nifer o'n trigolion. Ystyriodd yr Aelodau ddata cynnar a oedd yn ymwneud â'r tymor cyntaf cyn rhoi'r polisi newydd ar waith.

Roedd y Cydbwyllgor yn cydnabod mai sefyllfa gynnar oedd hon, ac y byddai angen i'r Aelodau ei monitro yn y dyfodol er mwyn deall yr effeithiau hirdymor ar ddisgyblion yn eu cyfanrwydd. Er gwaethaf hyn, cynhaliodd yr Aelodau adolygiad manwl o'r dystiolaeth sydd ar gael, ac roedden nhw'n falch o glywed gan bennaeth a grŵp ymgyrchu lleol. Cododd yr Aelodau nifer o bryderon, yn enwedig mewn perthynas â'r gronfa caledi, ac fe drafodon nhw hefyd hygyrchedd cludiant ysgol pwrpasol amgen, gan dynnu sylw at y pryderon ynghylch ei ddarpariaeth a'i ymarferoldeb. Roedd y Cydbwyllgor yn gwerthfawrogi'r cyfle i glywed am brofiadau uniongyrchol disgyblion, i'w galluogi i ddysgu am yr heriau ymarferol y maen nhw'n eu hwynebu, gan nodi bod yr effeithiau'n amrywio rhwng cymunedau. Mewn ymateb i'r materion a godwyd, cafodd yr Aelodau dawelwch meddwl wrth glywed am rai o'r camau lliniaru y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cyflwyno cronfa galedi ddewisol, gwaith ymgysylltu parhaus ag ysgolion a theuluoedd ac addasiadau i'r ddarpariaeth drafnidiaeth lle bo angen. Serch hynny, cytunodd yr Aelodau fod angen gwneud rhagor o waith i'w galluogi i werthuso effeithiolrwydd y mesurau'n llawn.

## Deilliannau

- Aeth yr Aelodau ati i **argymell** bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno o fewn 6 mis, gan gynnwys tystiolaeth bellach o ddata a gafodd ei gasglu dros dymor y gaeaf
- Argymhellodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor ymgysylltu â phobl ifainc a'u teuluoedd er mwyn casglu barn a phrofiadau pobl ifainc i'w cynnwys yn yr adroddiad.
- Dadansoddiad pellach o unrhyw effaith bosibl ar Addysg Gymraeg
- Rhagor o fanylion ynghylch sut mae manteisio ar y gronfa galedi a sut mae hi'n cael ei defnyddio
- Ystyried y mesurau ymarferol mewn ysgolion fel ystafelloedd sychu a loceri

Helpodd y dull yma o gydweithio i sicrhau bod yr Aelodau'n edrych yn fwy manwl ar y polisi a'i effeithiau, gan sicrhau bod materion addysgol a chymunedol ehangach yn cael eu hystyried yn ystod y broses graffu.

## Adroddiad y Gweithgor Tlodi Plant

Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Weithgor Tlodi Plant pwrpasol i adolygu effeithiau tlodi plant yn RhCT er mwyn nodi argymhellion ymarferol a allai helpu i wella deilliannau i blant a theuluoedd. Daeth y Gweithgor ag Aelodau, Swyddogion ac amrywiaeth o bartneriaid allanol o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ynghyd. Cafodd gwaith y Gweithgor ei gefnogi gan y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI), a ddarparodd gefnogaeth ac arbenigedd o ran casglu tystiolaeth a dadansoddi data. Galluogodd hyn y Gweithgor i ymgymryd â dull strwythuredig o gynnal yr adolygiad. Mae dull y CYBI yn seiliedig ar dystiolaeth, gan dynnu ar ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys ymchwil academaidd, data lleol, arbenigedd proffesiynol, a phrofiadau bywyd trigolion.

Cafodd y Gweithgor ddealltwriaeth gynhwysfawr o gwmpas yr her a'r rhwystrau y mae teuluoedd yn eu hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau cymorth.

Roedd y Gweithgor yn awyddus i ganolbwyntio ar wella mynediad at gymorth ymarferol ac ariannol, megis mynediad at fudd-daliadau, prydau ysgol am ddim a chymorth ehangach ar gyfer costau byw. Yn ogystal â hynny, trafododd y Gweithgor faterion gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael, cymhlethdod prosesau ymgeisio, stigma a rôl gweithio mewn partneriaeth er mwyn helpu i nodi teuluoedd sydd angen cefnogaeth yn gynnar.

Datblygodd y Gweithgor 18 o argymhellion gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion allweddol a nodwyd drwy ei waith. Mae camau bellach ar y gweill rhwng Gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid allanol i'w rhoi ar waith er mwyn cyflawni gwelliannau ystyrlon i blant a theuluoedd. Bydd y cynnydd yn parhau i gael ei fonitro trwy ddull olrhain argymhellion, ac yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae rhagor o fanylion am waith y Gweithgor Tlodi Plant i'w gweld nes ymlaen yn yr adroddiad yma.

## Roedd gwaith arall y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys:

**Ymgynghoriad: Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Drafft**

**Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025**
**Deall Cyllideb y Cyngor**

**Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol**

**Rhag-graffu: Cynllun Dyrannu Tai a Newidiadau Polisi Arfaethedig**

**Cynllun Gweithredu / Strategaeth Hybu'r Gymraeg**

**Rheoli Risg Tomenni Glo ac Isadeiledd**

**Adroddiad y Gweithgor Tlodi Plant**

# Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant

Mae'r Pwyllgor yma'n gyfrifol am ganolbwyntio ar Addysg ac Ysgolion. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar yr holl ddarpariaeth Addysg o 3 i 19 oed, a phob gwasanaeth arall gan y Cyngor y mae pobl ifainc yn ymgysylltu â nhw yn ein cymunedau. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal gwaith craffu ar Gonsortiwm Canolbarth y De[1] sy'n cyflawni agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion, wedi'u comisiynu gan bum awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf) er mwyn darparu gwasanaeth gwella ysgolion sy'n herio, monitro ac yn cefnogi ysgolion i wella safonau. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi craffu ar gydymffurfiaeth y Cyngor â Safonau'r Gymraeg, yn ogystal â'r ddarpariaeth o ran ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Yn unol â gofynion y gyfraith a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru, mae Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Chynhwysiant yn cynnwys cynrychiolwyr o ffydd grefyddol a rhiant-lywodraethwyr, ac mae gan bob un hawl i bleidleisio.

## Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025–2028

Yn y cyfarfod ar 25 Medi 2025, rhag-graffodd Aelodau'r Pwyllgor ar yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a drafft terfynol y cynllun gweithredu, cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Wedyn, cafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, yn unol â'r rhwymedigaeth statudol a osodwyd ar y Cyngor ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru), 2012. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod craffu yn elfen hanfodol o lywodraethu da ac yn gwella prosesau gwneud penderfyniadau, darpariaeth gwasanaethau a chost-effeithiolrwydd Cynghorau. Mae gwaith rhag-graffu'r Pwyllgor yn y maes yma'n atgyfnerthu atebolrwydd ac yn cynorthwyo Aelodau'r Cabinet i wneud unrhyw benderfyniadau ar y materion yma yn y dyfodol.

## Deilliannau

- **Argymhellodd** yr Aelodau bod angen dosbarthu offer chwarae arbenigol yn deg ledled RhCT i annog trigolion i'w defnyddio, gan nodi mai dim ond mewn mannau penodol yr oedd rhywfaint o offer chwarae arbenigol ar gael, a gallai hynny olygu taith hir o hyd at awr i rieni a chynhalwyr, a oedd yn cael effaith ganlyniadol o ran costau e.e. parcio, tanwydd, trafnidiaeth gyhoeddus.

- Nododd Aelod fod yr adroddiad yn datgan nad oedd 20% o blant bron byth yn chwarae nac yn 'treulio amser' gyda'u cyfoedion, a oedd yn ffigur arwyddocaol. **Argymhellodd** yr Aelod y dylid gwneud dadansoddiad fwy manwl o'r garfan yma, o ran ble roedd ffigurau uchel mewn wardiau penodol, gan ystyried cefndiroedd economaidd-gymdeithasol penodol neu a oes gan y plant yma anghenion penodol e.e. anableddau. Holodd yr Aelod beth oedd y cynllun gweithredu wedi'i dargedu ar gyfer y plant yma.

- Nododd Aelod nad oedd Cynllun Lles y Cyngor yn cyfeirio at chwarae, gan **argymell** y dylid ei ychwanegu, gan ei fod yn ffactor allweddol o ran lles plant a phobl ifainc.

[1] O fis Medi 2025 ymlaen, cafodd Consortiwm Canolbarth y De ei ailstrwythuro'n sylweddol yn dilyn "Adolygiad Haen Ganol" Llywodraeth Cymru. Cafodd gwasanaethau gwella ysgolion eu trosglwyddo i awdurdodau lleol unigol (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, a Bro Morgannwg), tra bod Consortiwm Canolbarth y De wedi'i drawsnewid yn wasanaeth dysgu a chymorth proffesiynol rhanbarthol.

- **Argymhellodd** Aelod y byddai'r adroddiad yn elwa ar amserlenni yn null 'SMART', er iddo gydnabod y byddai rhai amserlenni'n broses tair blynedd.

## Rheoliadau Drafft - Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

Ar 24 Tachwedd 2025, trafododd Fforwm Ieuenctid y Sir faterion 'Bwyta'n Iach' yn ei gyfarfod fforwm, yn dilyn cyflwyniad gan Swyddogion Addysg y Cyngor. Yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2025, derbyniodd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y newidiadau arfaethedig i Reoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013 Llywodraeth Cymru. Ystyriodd yr adroddiad y newidiadau a wnaed i'r brif fwydlen, a'r gefnogaeth a ddarperir i ddisgyblion, rhieni/cynhalwyr ac ysgolion a chyrff llywodraethu i weithio tuag at roi'r newidiadau arfaethedig ar waith.

## Deilliannau:

- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.
- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gyfradd gyfredol o ran yr uned Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd, gan gydnabod bod £3.40 yn dal i fod yn annigonol i dalu cost wirioneddol dosbarthu prydau bwyd sy'n cydymffurfio o ran maeth, yn enwedig o ystyried costau bwyd, staffio a gweithredu cynyddol.
- Roedd yr Aelodau'n arbennig o bryderus ynghylch cost a chymhlethdod cynyddol deietau a ragnodir yn feddygol, sy'n gofyn am oruchwyliaeth ddeietegol arbenigol ac yn rhoi pwysau ariannol sylweddol ar awdurdodau lleol. **Argymhellodd** yr Aelodau y dylid cefnogi galwad y gwasanaeth am gyllid pwrpasol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diwallu anghenion deietig, gan fod y sefyllfa bresennol yn peryglu cydymffurfiaeth lle mae angen darpariaeth ddeietegol wedi'i theilwra ar gyfer cyflyrau meddygol.

## Cynllun Strategol y Gwasanaeth Addysg 2026–2030

Unwaith eto, yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr 2025, derbyniodd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant adroddiad yn gwahodd yr Aelodau i ymateb yn ffurfiol i ymgynghoriad y Cyngor ar Gynllun Strategol drafft y Gwasanaeth Addysg ar gyfer 2026–2030. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i'r Aelodau ystyried y cynigion a chyflwyno eu barn cyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 23 Ionawr 2026. Roedd yr Aelodau'n ymgynghoreion yn ystod y cyfarfod, a chynigion nhw adborth a sylwadau yn dilyn trafodaeth adeiladol ar yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

## Deilliannau

- Cyfeiriodd Aelod at flaenoriaeth strategol dau, gan **argymell** atgyfnerthu'r geiriad, gan nodi bod cynnydd a chanlyniadau "da" yn teimlo'n rhy gymedrol, a dylai'r cynllun anelu y tu hwnt i "dda" tuag at ragoriaeth. Mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn mannau eraill yn yr adroddiad.
- Cefnogodd Aelod Flaenoriaeth Strategol pedwar, sef darparu cymunedau diogel a chynaliadwy ar gyfer dysgu. Serch hynny, **argymhellodd** ei ymestyn i gynnwys "galluogi arferion addysgu arloesol ac ymgysylltu â'r gymuned." Nododd yr Aelod bwysigrwydd defnyddio mannau yn y gymuned ac ysgolion yn ganolfannau dysgu cynaliadwy, sydd wedi bod yn thema gyson yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen yn ddiweddar.

- Pwysleisiodd Aelod bwysigrwydd arweinyddiaeth effeithiol, gan adleisio sylwadau blaenorol, a nododd nad oedd y targed o 90% ar gyfer llywodraethu ac arweinyddiaeth ar dudalen 65 yn teimlo'n ddigon uchelgeisiol, gan **argymell** anelu'n uwch, er gwaethaf cydnabod yr heriau dan sylw.
- Mynegodd Aelod bryder ynghylch y cynnydd uchaf erioed mewn addysg ddewisol yn y cartref, gan gwestiynu a oedd y cynllun yn canolbwyntio'n ddigonol arno ac **argymell** efallai y bydd angen craffu mwy manwl yn y dyfodol.
- Tynnodd Aelod sylw at yr anawsterau parhaus i rieni a chynhalwyr sy'n wynebu'r system ADY gymhleth ac yn ceisio cael mynediad at gyngor yn brydlon. Cyfeiriodd yr Aelod at adroddiad diweddar gan Brifysgol Leeds a Cerebra, sef Systems Generated Trauma, sy'n trin a thrafod y straen sylweddol a achosir gan y system ei hun, gan **argymell** gallai hyn alw am ystyriaeth bellach.
- Tynnodd Aelod sylw at bryderon ynghylch effaith cyfryngau cymdeithasol ar iechyd meddwl a lles ar ôl COVID, gan nodi'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn ysgolion yn y dyfodol a chyfeirio at waharddiad Awstralia ar gyfryngau cymdeithasol i blant o dan 16 oed. **Argymhellodd** yr Aelod y dylid cynnwys mesurau cryfach yn y cynllun i gydbwyso'r materion yma.
- Nododd Aelod fod Prifysgol De Cymru yn ymgymryd â phrosiectau Gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg sylweddol a phwysleisiodd ei phwysigrwydd yn bartner allweddol o ran ymgysylltu â'r gymuned a meithrin dyheadau. **Argymhellodd** yr Aelod y dylid atgyfnerthu'r cyfeiriadau at Brifysgol De Cymru yn y cynllun.

## Addysg Ddewisol yn y Cartref

Yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2026, derbyniodd yr Aelodau adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol gartref yn Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â rhoi trosolwg i'r Aelodau o arlwy'r gwasanaethau a ddarperir. Mae addysg yn orfodol yng Nghymru, ond dydy mynychu'r ysgol ddim yn orfodol. Os yw plentyn yn cael ei addysgu gartref, mae rhwymedigaeth ar rieni i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg llawn amser 'effeithlon' ac 'addas', fel y nodir yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996. Mae diffiniad Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi'i nodi yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru Canllawiau addysg ddewisol yn y cartref | LLYW.CYMRU.

## Deilliannau

- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.
- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru atgyfnerthu'r canllawiau cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref gan gynnwys ystyried rhoi elfennau allweddol ar sail statudol, er mwyn darparu disgwyliadau cliriach, gwella cysondeb a chefnogi dulliau monitro mwy trylwyr.
- **Argymhellodd** yr Aelodau fod angen meini prawf cenedlaethol cliriach i benderfynu a yw addysg yn “effeithlon ac yn addas”, gan gynnwys sut y dylid asesu cynnydd, cwmpas y cwricwlwm a thystiolaeth o ddysgu.
- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r trefniadau capasiti a chyllido, gan gydnabod y cynnydd sylweddol yn niferoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r cymhlethdod cynyddol sy'n gysylltiedig ag ADY, gorbryder ac effeithiau COVID.

- **Argymhellodd** yr Aelodau y dylai Llywodraeth Cymru adolygu trefniadau CYBLD, gan ystyried mecanweithiau ar gyfer cyllid i olrhain disgyblion sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref, yn enwedig y rhai ag ADY, neu i nodi lle gallai cefnogaeth eu hannog i ddychwelyd i'r ysgol.

## Roedd gwaith arall yn cynnwys:

Gweithgor Craffu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - 16 Gorffennaf 2025

Dyfeisiau Symudol mewn Ysgolion (Rhan 1) – 16 Gorffennaf 2025

Llywodraethu Ysgolion – 16 Gorffennaf 2025

Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg - Diweddariad - 25 Medi 2025

Moderneiddio Ysgolion – Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy - 10 Tachwedd 2025

Presenoldeb a Rhwystrau o ran Ymgysylltu mewn Ysgolion – 10 Tachwedd 2025

Argymhellion Estyn ar gyfer Gwella - 10 Tachwedd 2025

Ymgysylltu ag Aelod Cabinet ddwywaith y flwyddyn - 9 Rhagfyr 2025

Darpariaeth Cwricwlwm Ôl-16 (gan gynnwys Llwybrau Cynnydd Ôl-14 ac Ôl-16) 29 Ionawr 2026

# Y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned

Mae'r Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned yn gyfrifol am ganolbwyntio ar y gwasanaethau sydd wedi'u darparu gan y Cyngor sy'n cefnogi Iechyd a Lles ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid yn y Gwasanaeth Iechyd ac ystyried ffactorau sy'n cefnogi'r gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl hŷn. Mae'r Pwyllgor yn ystyried gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, yn ogystal â'r holl ffactorau eraill sy'n cyfrannu at Iechyd a Lles y Fwrdeistref Sirol, megis Gwasanaethau Hamdden a Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd. Yn rhan o'i gylch gwaith, ac ochr yn ochr â'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, mae'r Pwyllgor yn ystyried cyfrifoldebau'r Cyngor yn Rhiant Corfforaethol, gan gynnwys ei gyfrifoldebau o ran Plant sy'n Derbyn Gofal. Yn ogystal â hynny, hwn yw Pwyllgor Troseddau ac Anhrefn dynodedig y Cyngor (o dan Adran 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).

## Rhag-graffu ar fodel Fy Seibiant i, Fy Newis i

Yn ei gyfarfod ar 29 Medi 2025, cafodd y Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned gyfle i rag-graffu ar yr ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gyfer rhanddeiliaid ar y model arfaethedig a gafodd ei lunio ar y cyd er mwyn darparu gofal seibiant i bobl ag anableddau dysgu, sef Fy Seibiant i, Fy Newis i.

## Deilliannau

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y gwasanaeth yn hyblyg, a bod modd ei deilwra i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth, gan gydnabod ei fod yn newid cadarnhaol o ran arfer.
- Nododd y swyddogion fod disgwyl i'r cynnig fod yn **gost niwtral**, gan roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd ariannol.
- Er ei bod hi'n annhebygol y bydd hyn yn lleihau nifer y trigolion sy'n mynd i'r ysbyty'n sylweddol oherwydd cymhlethdod y grŵp defnyddwyr, roedd yr Aelodau o'r farn bod disgwyl i'r model **gynnal lefelau costau cyfredol wrth wella profiad y defnyddwyr**.
- Aeth yr Aelodau ati i gydnabod y gallai newidiadau greu pryder i ddefnyddwyr y gwasanaeth a chynhalwyr, a chawsant sicrwydd y byddai adolygiadau unigol yn ymgorffori barn defnyddwyr y gwasanaeth, eu prif gynhalwyr, ac eraill sy’n ymwneud â nhw, gan sicrhau **proses gynllunio gyfannol a chynhwysol**.
- Roedd yr Aelodau o'r farn ei bod hi'n gadarnhaol mai nod y dull yma yw **lleihau pryder a helpu i feithrin hyder** yn y trefniadau newydd drwy sicrhau eu bod nhw'n gweithio'n dda i bawb sy'n rhan o'r broses.
- Nododd yr Aelodau'r data o ganlyniadau'r ymgynghoriad a **phwysleision nhw bwysigrwydd seibiannau ystyrlon**, yn enwedig dros nos, i gynhalwyr sy'n gofalu am aelod o'r teulu.
- Cafodd y cynnig ei gydnabod yn **ddull cadarn, sy'n edrych i'r dyfodol** ac sy'n cydnabod anghenion defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys prif gynhalwyr.

## Rhag-graffu ar y Model Cymorth Arfaethedig i Gynhalwyr Di-dâl

Yn y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2025, croesawodd yr Aelodau’r cyfle i rag-graffu ar ganlyniad yr ymgynghoriad wedi’i dargedu â rhanddeiliaid ar y model cymorth newydd arfaethedig i gynhalwyr

di-dâl. Cafodd yr Aelodau drafodaeth adeiladol ynghylch yr adroddiad dan sylw a'r argymhellion perthnasol.

## Deilliannau

- Aeth y Pwyllgor ati i gydnabod pwysigrwydd gwella cymorth y Cyngor i gynhalwyr di-dâl a chanmolon nhw'r dull cynhwysol a roddwyd ar waith i ddatblygu'r model arfaethedig. Cytunodd yr Aelodau fod y fframwaith tair haen yn darparu llwybr rhesymegol a hygyrch i gynhalwyr, a bod meithrin cysylltiadau cryfach rhwng y Gwasanaethau i Oedolion, carfan Datblygu'r Gymuned a Gwasanaethau'r Llyfrgelloedd yn gam cadarnhaol tuag at ddull mwy cydgysylltiedig.

- Serch hynny, pwysleisiodd yr Aelodau hefyd y bydd llwyddiant y model yn dibynnu ar adnoddau digonol, cyfathrebu clir, a gwaith monitro trylwyr i sicrhau bod canlyniadau i gynhalwyr di-dâl yn cael eu gwella'n wirioneddol ac felly **argymhellir cadarnhau bod digon o adnoddau ar gael cyn rhoi'r camau ar waith** i sicrhau bod modd rheoli'r cyfrifoldebau ychwanegol ar gyfer staff y Gwasanaethau i Oedolion, Gwasanaethau'r Llyfrgelloedd a charfan Datblygu'r Gymuned.

- Mynegodd yr Aelodau bryder y gallai ehangu'r ddarpariaeth dros saith canolfan yn y gymuned a nifer o safleoedd llyfrgell roi pwysau ychwanegol ar y Gwasanaethau i Oedolion, staff llyfrgelloedd, a chydlynwyr yn y gymuned. Felly, holodd y Pwyllgor **a fyddai modd i'r Cabinet sicrhau bod strwythurau staffio, llwythi gwaith a chyfrifoldebau yn cael eu hadolygu** a'u haddasu yn ôl yr angen i gyd-fynd â'r galw cynyddol. Cafodd cais penodol ei gyflwyno i roi rhybudd ynghlwm wrth benderfyniad y Cabinet sy'n tynnu sylw at y ffaith bod cyflwyno'r model yn ddibynnol ar sicrhau bod digon o adnoddau staff ar gael.

- **Ceisiodd yr Aelodau sicrwydd y bydd modd i gynhalwyr drafod materion sensitif neu bersonol mewn lleoliad preifat ac urddasol**. Er eu bod wedi cael sicrwydd bod mannau preifat ar gael yn y llyfrgelloedd a bod dim disgwyl i'r staff gynnal trafodaethau manwl wrth gownteri cyhoeddus, tynnodd yr Aelodau sylw at bwysigrwydd cynnal cyfrinachedd a chamau diogelu priodol ar bob adeg.

- Nododd yr Aelodau nad yw llawer o unigolion sy'n darparu gofal yn ystyried eu hunain yn gynhalwyr di-dâl ac felly efallai na fyddan nhw'n manteisio ar y cymorth. Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor gydweithio'n agos â'r Bwrdd Iechyd i nodi cynhalwyr di-dâl yn ystod y cam cofrestru, er enghraifft drwy ffurflenni cleifion newydd, a chadw cofnod ohonyn nhw. Byddai'r wybodaeth yma wedyn yn cael ei defnyddio i wella ymgysylltiad a chefnogaeth yn lleol.

- **Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen am gyfathrebu clir a chynhwysfawr** i sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu â chynhalwyr ym mhob cymuned, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Anogodd yr Aelodau'r swyddogion i wneud defnydd o rwydweithiau cymunedol, partneriaid yn y trydydd sector, a grwpiau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r model a'r gefnogaeth gysylltiedig sydd ar gael.

- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd lle does dim llyfrgell leol. Awgrymodd yr Aelodau y gellid defnyddio adeiladau eraill y Cyngor, fel canolfannau hamdden neu leoliadau yn y gymuned, i ddarparu sesiynau ymgynghori

neu gyfleoedd galw heibio.. **Argymhellodd yr Aelodau fod angen bod yn hyblyg wrth roi'r trefniadau yma ar waith.**

- Roedd yr aelodau o'r farn ei bod hi'n hanfodol monitro effaith y model o'r cychwyn cyntaf. Felly, **argymhellwyd y dylai'r Cyngor lunio cyfres o ganlyniadau mesuradwy** i asesu a yw'r dull newydd yn lleihau unigedd, straen a diffygiad ymhlith cynhalwyr di-dâl ac yn gwella'r cyfleoedd iddyn nhw fanteisio ar gymorth. Cynigiodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor gynnal arolwg dilynol o gynhalwyr di-dâl tua deuddeg mis ar ôl rhoi'r model ar waith, gan adrodd y canlyniadau yn ôl i'r Pwyllgor Craffu.

- Roedd yr Aelodau'n falch o weld bod y Cyngor wedi cydweithio â chynhalwyr di-dâl i lunio'r model, gan fynd ati i annog swyddogion i barhau i gynnwys cynhalwyr yn y gwaith o lunio ac adolygu'r gwasanaeth wrth iddo ddatblygu.

## Rhag-graffu ar Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf

Yn ei gyfarfod ar 8 Rhagfyr 2025, cynhaliodd y Pwyllgor waith rhag-graffu ar gynnydd yn erbyn naw argymhelliad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, yn dilyn ei Arolygiad o Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf ym mis Ebrill/Mai 2024.

## Deilliannau

- Aeth y Pwyllgor ati i gydnabod y cynnydd clir a wnaed gan Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf yn erbyn y naw maes i'w gwella a argymhellwyd yn dilyn Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi o'r Gwasanaeth yn 2024. Trafododd yr Aelodau'r dull rhagweithiol y rhoddodd y Gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli ar waith, sydd wedi effeithio ar yr ymateb cadarnhaol.

- Roedd yr Aelodau'n arbennig o falch o glywed bod y penderfyniad i symud Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf o Gwadrant 2: (Cyflawniad Boddhaol) i mewn i Gwadrant 3: (Angen Gwella) gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid wedi'i wrthdroi, a hynny yn dilyn adolygiad o gynnydd a gynhaliwyd ym mis Awst 2025 gan Fwrdd Goruchwylio Cyflawniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder;

- Cytunodd yr Aelodau fod y newid yn ôl i Gwadrant 2 yn amlygu'r 'gwelliannau strategol a gweithredol cadarnhaol' a wnaed yn erbyn argymhellion yr Arolygiad, ac a ddangoswyd drwy lythyr ffurfiol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn cydnabod bod newid y Cwadrant yn *cydnabod gwelliannau cynaliadwy a pharhaus mewn perthynas â'r holl ddangosyddion allweddol sy'n cael eu gyrru gan ddulliau llywodraethu, arweinyddiaeth strategol a gweithio mewn partneriaeth effeithiol sydd wedi'u hatgyfnerthu'n sylweddol;*

- Yn rhan o'r adolygiad, gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod '*pob ymarferydd yn cael ei gefnogi i nodi a dadansoddi ffactorau sy'n effeithio ar ddiogelwch y plentyn a diogelwch eraill*'. Mae'r hyfforddiant Asesiadau Atal a Dargyfeirio wedi'i ymgorffori yn yr hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff newydd, ac, ar ben hynny, mae hefyd yn rhan annatod o'r cynllun hyfforddi blynyddol a'r rhaglen hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer pob aelod o staff presennol;

## Ymgynghoriad ar y Cynllun Cilfachau Parcio i Bobl Anabl

Yn ei gyfarfod ar 21 Gorffennaf 2025, croesawodd y Pwyllgor y cyfle i ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad ar y gwelliannau arfaethedig i Gynllun Cilfachau Parcio i Bobl Anabl Cyngor Rhondda Cynon Taf yn dilyn adolygiad diweddar. Roedd cynrychiolwyr o'r Grŵp Cynghori Pobl Hŷn yn bresennol yn y cyfarfod yma a rhannon nhw eu barn yn rhan o drafodaeth y Pwyllgor.

## Deilliannau

- Cwestiynodd yr Aelodau'r cyfyngiad blynyddol o 12 cilfach ac roedden nhw o'r farn bod angen rhesymeg gadarn ar gyfer y nifer terfynol o gilfachau parcio sy'n cael eu dyrannu bob blwyddyn.

    - **Deilliant y Cabinet:** Argymhellwyd cynyddu nifer y cilfachau parcio i bobl anabl sy'n cael eu dyrannu i uchafswm o 15 cilfach y flwyddyn.

- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch cost yr asesiadau meddygol y mae angen eu cael yn rhan o'r broses ymgeisio a'r llwyth gwaith posibl i Feddygon Teulu o ran ceisiadau o'r fath, er iddyn nhw nodi bod modd cael mathau eraill o dystiolaeth gan ymarferwyr meddygol eraill.

- Aeth yr Aelodau ati i gydnabod y straen ormodol y mae modd i ddarparu tystiolaeth feddygol (am gost) ei beri i bobl, ynghyd â'r ansicrwydd ynghylch a fyddai eu cais yn llwyddiannus. Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn y gallai galluogi eraill i ddefnyddio'r gilfach barcio preswyl hefyd roi straen ormodol ar yr unigolyn am y rhesymau a amlygwyd eisoes.

    - **Deilliant y Cabinet:** Gan ystyried yr adborth, argymhellodd y Pwyllgor fod y Cyngor yn cyflwyno meini prawf cymhwysedd newydd sydd wedi'i nodi ym mhwynt 7.3 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr proffesiynol meddygol ddewis tystiolaeth feddygol sy'n mynd i'r afael yn benodol ag anawsterau sy'n gysylltiedig â symudedd a pharcio, yn hytrach na thalu am neu ad-dalu costau sy'n gysylltiedig â chasglu tystiolaeth feddygol, a ariennir gan ymgeiswyr.

- Awgrymodd yr Aelodau y dylai'r Cyngor reoli cilfachau Preswyl yn fwy llym, gan fynd ati i ailddyrannu cilfachau nad oes eu hangen mwyach ar ddeiliad y gilfach. Ystyrion nhw hefyd a ddylai'r Cyngor ddyrannu cilfachau ar sail ddaearyddol deg ledled y Fwrdeistref Sirol.

    - **Deilliant y Cabinet:** Er mwyn sicrhau nad yw amgylchiadau unigolyn sydd wedi cael cilfach barcio i bobl anabl wedi newid, a'i fod yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y cynllun, argymhellodd yr Aelodau:

        • bod cilfachau parcio i bobl anabl yn cael eu hailgadarnhau'n flynyddol, a gallai methu â gwneud hyn arwain at glustnodi cilfach barcio i'w dileu
        • cyflwyno proses fewnol o fewn y Cyngor i reoli'r gwaith o gael gwared ar leoedd parcio does dim eu hangen mwyach.

- Gofynnodd yr Aelodau am adolygu cynnydd y cynllun diwygiedig ymhen 12 mis er mwyn monitro ei effeithiolrwydd.

## Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (Trosedd ac Anhrefn) - Cydlyniant Cymunedol

Yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2025, croesawodd y Pwyllgor y cyfle i graffu ar adroddiad ar y sefyllfa sydd ohoni o ran cydlyniant cymunedol yn Rhondda Cynon Taf, a oedd yn amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd allweddol. Amlinellodd yr adroddiad hefyd weithgarwch cydweithio rhanbarthol ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg wrth fynd i'r afael â thensiynau yn y gymuned, atal eithafiaeth, a hyrwyddo gwerthoedd cyffredin ym mhob un o'n cymunedau. Roedd y Pwyllgor yn falch o groesawu cynrychiolydd o Heddlu De Cymru i'r cyfarfod a oedd yn gallu rhoi cipolwg gwerthfawr ar y cydweithio sydd wedi mynd rhagddo a'r nodau o ran Cydlyniant Cymunedol yn y dyfodol.

## Deilliannau

- Trafododd yr Aelodau'r Model Clirio, Cynnal, Adeiladu sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad, ac roedden nhw'n falch o glywed am y canlyniadau cadarnhaol, gan mai RhCT oedd yr ardal gyntaf yng Nghymru i roi model y Swyddfa Gartref ar waith yng Nghae Fardre. **Argymhellodd yr Aelodau y dylid ehangu'r model yma** ac roedden nhw'n falch o glywed Heddlu De Cymru'n ategu manteision y model lle mae data troseddau'n dangos bod angen ymyrraeth. Roedd yr Aelodau'n cydnabod bod y model yn ddwys o ran adnoddau ac roedden nhw o blaid y gwaith myfyrio sy'n mynd rhagddo i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu i bwynt lle mae angen y model.

- Aeth yr Aelodau ati i gydnabod gwaith Grŵp Cydlyniant Cymunedol RhCT ac roedden nhw'n awyddus iddo barhau.

- Nododd yr Aelodau'r cynnydd mewn ffigurau troseddau casineb a oedd yn rhan o'r adroddiad a holon nhw am ymyriadau mewn ysgolion. Cafodd yr Aelodau dawelwch meddwl o glywed am wybodaeth a ddarparwyd ynghylch menter beilot gwrth-fwlio sydd eisoes ar waith mewn ysgol gynradd yn RhCT, yn ogystal â'r ffaith bod y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn ehangu i gefnogi'r broses **bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**, gan nodi disgyblion agored i niwed yn gynharach.

- **Pwysleisiodd yr Aelodau werth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a wardeiniaid gweladwy ac argymhellon nhw fod y trefniadau yma'n aros ar waith mewn cymunedau ledled** y Fwrdeistref Sirol. Aeth yr Aelodau ati i gydnabod bod heriau o ran staffio o fewn Heddlu De Cymru ond pwysleision nhw fod gwybodaeth leol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau i fod yn adnodd hanfodol. Roedd yr aelodau'n falch o glywed bod ymgyrch recriwtio fawr ar y gweill.

## Mae gwaith arall yn cynnwys:

Y Cynnydd Diweddaraf ar Arolygiad Estyn Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned RhCT
Adroddiad Blynyddol ar weithdrefnau rhoi sylwadau, canmol a chwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol
Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25
Diweddariad Dros Dro ar y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus
Gofal yn y Cartref
Oedi yn y Llwybr at Ofal
Gwasanaeth cymorth fel y bo angen ardaloedd lleol Rhondda Cynon Taf i sicrhau bod modd i bobl gael mynediad i gymorth i gynnal eu tai ar gyfer pob deiliadaeth
Strategaeth Trawsnewid Gwasanaeth Preswyl y Gwasanaethau i Blant
Strategaeth atal ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf Morgannwg – Effaith a Chynnydd yn RhCT

# Y Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant

Mae'r Pwyllgor Craffu - Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant yn gyfrifol am Ddwyn yr Adain Weithredol i gyfrif o ran ei chyflawniad yn holl feysydd blaenoriaeth y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys: Sicrhau bod pobl yn annibynnol, iach a llwyddiannus; creu lleoedd lle mae pobl yn falch o fyw, gweithio a chwarae; a galluogi ffyniant drwy greu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol ac yn entrepreneuraidd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am faterion o ran cadw RhCT yn lân trwy wasanaethau glanhau'r stryd effeithlon, lleihau'r gwastraff rydyn ni'n ei anfon i'r safle tirlenwi, cyflawni ein targedau ailgylchu trwy gasglu gwastraff ailgylchu bob wythnos a gwastraff cyffredinol yn rheolaidd, a lleihau ein hôl-troed carbon. Yn ogystal â hynny, mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar gadw'r Fwrdeistref Sirol i symud trwy welliannau i ffyrdd a phalmentydd a thrafnidiaeth gyhoeddus, tra hefyd yn gwella ansawdd aer a manteisio'n llawn ar ein parciau trwy ofalu am ein mannau gwyrdd a buddsoddi ynddyn nhw.

## Adolygu Terfyn Cyflymder 20 Milltir yr Awr Llywodraeth Cymru

Ar 17 Gorffennaf 2026, cafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i graffu ar y cynnydd a wnaed o ran adolygu terfyn cyflymder 20MYA Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ystyried rhestr o 26 o ffyrdd posibl a nodwyd, yn dilyn cwblhau'r broses adolygu dechnegol, ar gyfer dychwelyd i derfyn cyflymder 30MYA o bosibl. Cafodd yr adolygiad yma ei gynnal yn unol â meini prawf asesu diwygiedig Llywodraeth Cymru a chanfyddiadau'r Rhaglen Wrando Genedlaethol.

Daeth nifer o sylwadau gan y cyhoedd i law ynghylch yr eitem yma, ac fe'u hanfonwyd ymlaen at swyddogion yn y modd priodol.

## Deilliannau

- **Roedd yr Aelodau'n falch o glywed** nad oedd cost ariannol i'r Cyngor, heblaw am gost gwaith llafur, wrth newid yr arwyddion yn ôl i 30MYA.
- Ceisiodd yr Aelodau eglurder ynghylch y broses ymgynghori gan mai dim ond yr Aelodau hynny a oedd yn cynrychioli'r wardiau a allai wynebu newidiadau oedd wedi derbyn gohebiaeth. Argymhellon nhw y dylid ymgynghori â holl Aelodau'r Cyngor yn hytrach na dim ond y rhai yn y wardiau dan sylw.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch Heol Berw, gan ofyn am adolygu hyn gan nad oedd yn cyd-fynd â'r meini prawf a nodwyd yn yr adroddiad.
- Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch yr effaith ar yr amgylchedd, gan argymell y dylid ystyried hyn wrth benderfynu a ddylid cynyddu neu ostwng y terfyn cyflymder.
- Argymhellodd yr Aelodau y dylid rhoi camau gorfodi llymach ar waith a sicrhau mwy o bresenoldeb yr heddlu cyn i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith.

Wedi hynny, cafodd yr Aelodau gyfle i graffu ar ganlyniadau Cyfnod yr Hysbysiad Cyhoeddus Statudol ac ymatebion y Swyddogion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Mawrth 2026. Roedd yr Aelodau'n falch bod y swyddogion wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac yn falch o nodi sut roedd swyddogion wedi ymateb i ymatebion yn ystod Cyfnod yr Hysbysiad Cyhoeddus Statudol. Roedd yr Aelodau'n barod i argymell bod swyddogion yn bwrw ymlaen â phenderfyniad allweddol a fydd yn sicrhau bod modd cyhoeddi'r hysbysiad gweithredu (a selio Gorchymyn Rheoleiddio Traffig) yn y lleoliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad, a bod y gwaith ffisegol yn dechrau cyn gynted â phosibl.

## Rhag-graffu ar Adroddiad Monitro Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) y Cyngor 2024/2025

Ar 5 Tachwedd 2025, cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyfle i rag-graffu ar Adroddiad Monitro Blynyddol Ardoll Seilwaith Cymunedol y Cyngor 2024/25 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet. Roedd yr adroddiad yn nodi cynnwys Adroddiad Monitro Blynyddol yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r newidiadau arfaethedig i'r Rhestr Rheoliad 123.

## Deilliannau

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch a allai cymunedau RhCT elwa ar wariant ASC o ganlyniad i ddatblygiadau mwy mewn Awdurdodau Lleol cyfagos, megis Gorllewin Caerdydd. Nododd yr Aelodau fod datblygiadau yng Ngorllewin Caerdydd o bosibl yn cael effaith ar Rondda Cynon Taf o ystyried maint y datblygiadau a'r effeithiau cysylltiedig ar draffig lleol a pharcio yn ardal Rhondda Cynon Taf. Roedd Aelodau'n teimlo y dylai'r Cyngor gyfathrebu'n agos ag awdurdodau cyfagos i drin a thrafod effeithiau trawsffiniol prosiectau datblygu ac y dylai'r Cyngor gyflwyno sylwadau i Awdurdodau Lleol cyfagos ac i Lywodraeth Cymru er mwyn lliniaru'r effeithiau ar Rondda Cynon Taf;

- Cafodd Aelodau eu calonogi o glywed bod perthynas waith agos yn bodoli rhwng y Cynghorau Cymuned a Thref a'r Awdurdod Lleol o ran prosiectau posibl i elwa ar wariant ASC ar lefel leol. Fodd bynnag, roedd Aelodau'n teimlo bod anghydbwysedd o hyd yn y ffordd y mae gwariant ASC yn cael ei ddyrannu rhwng ardaloedd gogleddol a deheuol y Fwrdeistref Sirol;

- Argymhellodd Aelodau y dylid gwneud map daearyddol yn haws i'r cyhoedd ei gyrraedd i ddangos ble yn y Fwrdeistref Sirol y mae'r ASC yn cael ei gwario a lleoliadau'r parthau ASC, gan helpu i sicrhau tryloywder. Argymhellodd Aelodau, yn dilyn Etholiadau Lleol 2027, y dylid rhoi cyflwyniad trosolwg hefyd i Aelodau newydd eu hethol yn amlinellu'r lleoliadau a faint o gyllid ASC sydd wedi'i ddyrannu i bob prosiect yn ardal RhCT;

- Nododd Aelodau faint o arian ASC sydd wedi mynd i rai Cynghorau Tref a Chymuned yn y Fwrdeistref Sirol a gofynnon nhw am wybodaeth am faint o gyllid y maen nhw wedi'i dderbyn dros y pum mlynedd diwethaf. Tynnodd Aelodau sylw at ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol nad oes gyda nhw brosiectau datblygu mawr yn cael eu cynnal ynddyn nhw ar hyn o bryd, ac na fydd hynny byth yn digwydd yn y dyfodol. Felly, cwestiynodd yr Aelodau degwch a chydbwysedd y system a ddefnyddir pan fo ardaloedd yn y Fwrdeistref Sirol na fyddan nhw byth yn elwa ar wariant ASC. Cododd Aelodau bryderon ynghylch ble mae ASC yn cael ei chodi o'i gymharu â ble mae'n cael ei gwario, ac argymhellwyd y dylid adolygu hyn fel rhan o'r CDLl newydd;

- Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod clercod Cynghorau Cymuned/Tref yn cael rhybudd ymlaen llaw o incwm ASC, sy'n eu helpu i gynllunio ymlaen llaw a datblygu strwythur talu ac arolygu prosiectau posibl; argymhellodd Aelodau y dylai'r Cyngor barhau i weithio'n agos gyda'r Cynghorau Cymuned a Thref i roi rhybudd ymlaen llaw o'r Rhestr Rheoliad 123 a gwariant ASC;

- Gofynnodd Aelodau pa mor aml y mae'r Rhestr Rheoliad 123 yn cael ei diweddaru gan fod yr Aelodau wedi tynnu sylw at y ffaith bod rhywfaint o'r cynnwys yn hen ac y gallai elwa ar adolygiad pellach i sicrhau bod pob prosiect y priffyrdd ac addysg yn gyfredol;

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad ynghylch y broses gwneud penderfyniadau a ddefnyddir i ychwanegu eitemau at y rhestr. Tynnodd Aelod sylw at y ffaith bod mynediad at wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr mewn ardaloedd o dwf preswyl dwysedd uchel wedi cael ei grybwyll ers peth amser ond ei fod wedi cael ei hepgor o'r rhestr tra bod eitemau eraill wedi'u cynnwys.

## Rhag-graffu ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

Yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2025, cafodd Aelodau gyfle i rag-graffu ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 cyn iddi fynd gerbron Is-bwyllgor y Cabinet – Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio er mwyn i Aelodau'r Cabinet ei thrafod. Bwriad yr adroddiad oedd amlinellu'r cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Dyletswydd Bioamrywiaeth Adran 6 y Cyngor a gofyn i Is-bwyllgor y Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## Deilliannau

- Canmolodd Aelodau Bolisi Cynllunio Cymru am gryfhau'r flaenoriaeth a roddir i fioamrywiaeth mewn penderfyniadau cynllunio. Awgrymodd Aelodau y dylai'r Cyngor fod yn annog datblygwyr i roi blychau Swift mewn eiddo preswyl newydd. Argymhellodd Aelodau hefyd y dylid hyrwyddo blychau Swift gyda sefydliadau trydydd sector a neuaddau cymunedol yn RhCT;

- Pwysleisiodd Aelodau bwysigrwydd tomenni glo i fioamrywiaeth a llwyddiant y rhaglen Cysylltiadau Sborion Glo wrth dynnu sylw at yr amrywiaeth o gynefinoedd sy'n gyfeillgar i bryfed a geir mewn tomenni gwastraff. Argymhellodd Aelodau y dylid ymestyn hyn i gynnwys tomenni gwastraff eraill ledled RhCT er mwyn nodi cynefinoedd unigryw ychwanegol sy'n cefnogi bywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar draws y rhanbarth. Roedd Aelodau hefyd yn teimlo y dylai gwneud tomenni glo'n warchodfa natur ac yn rhan o raglen Tirweddau Byw fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac argymhellwyd y dylid cryfhau'r cynllun ar gyfer tomenni glo ledled RhCT o fewn y CDLl;

- Cafodd Aelodau eu calonogi o glywed bod yr Awdurdod yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol cyfagos yn y maes yma, yn enwedig o ran y berthynas waith agos â


RHONDDA CYNON TAF

Chyngor Castell-nedd Port Talbot ar fferm wynt Pen y Cymoedd, y fferm wynt fewndirol fwyaf yng Nghymru a Lloegr;

- Roedd Aelodau'n falch o glywed bod uno adrannau Cynllunio a Bioamrywiaeth y Cyngor wedi gwella gwaith bioamrywiaeth ledled y Fwrdeistref Sirol ac wedi cael effaith gadarnhaol o ran blaenoriaethu bioamrywiaeth mewn penderfyniadau cynllunio;

- Argymhellodd Aelodau fod y Cyngor yn cryfhau ei waith ymgysylltu cyhoeddus â chymunedau busnes lleol yn RhCT a sefydliadau'r trydydd sector i'w cefnogi i ddod yn fwy ymwybodol o fioamrywiaeth;

- Canmolodd Aelodau waith y Cyngor gyda sefydliadau partner ehangach wrth helpu i ledaenu gwaith cynllunio bioamrywiaeth i grwpiau ecolegol cymunedol ac anogwyd y Cyngor i gryfhau gwaith y Bartneriaeth Natur Leol i annog ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn y dyfodol;

- Argymhellodd Aelodau, wrth ystyried ceisiadau cynllunio i'w cymeradwyo, y dylid ystyried bioamrywiaeth yn rhan o'r broses a bod unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth yn cael eu hadolygu i wirio eu bod yn cydymffurfio er mwyn osgoi meithrin diwylliant lle cân nhw eu hystyried yn ddewisol yn hytrach nag yn orfodol;

- Nododd Aelodau nad yw gwefan 'Dewch i Siarad RhCT - Coed' yn cael ei defnyddio, nac yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Argymhellodd Aelodau fod y dudalen yma'n cael ei hadolygu a bod gwefannau'r Cyngor fel gwefan Tirweddau Byw, gwefan y Bartneriaeth Natur Leol a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu hyrwyddo i drigolion yn ei lle;

- Roedd Aelodau'n teimlo y gallai'r Awdurdod fod yn gwneud mwy o ran ei ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i annog trigolion i roi gwybod am achosion o weld bywyd gwyllt i Ganolfan Gofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC) gan y bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau y mae'r Awdurdod yn eu gwneud ar sail cofnodion SEWBReC yn seiliedig ar y cofnodion mwyaf cyfredol sydd ar gael;

- Roedd Aelodau'n teimlo y gellid gwneud mwy i sicrhau bod cynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy'n ystyried yr angen i feddwl am fioamrywiaeth ac ecoleg;

- Cafodd Aelodau eu calonogi o ddysgu y bydd y CDLl newydd yn cynnwys mwy o fanylion o ran gofynion bioamrywiaeth.

## Rhag-graffu ar Raglen Mawndiroedd RhCT

Yn ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr, rhag-graffodd Aelodau'r Pwyllgor ar Raglen Mawndiroedd RhCT cyn i Is-bwyllgor y Cabinet – Effeithlonrwydd Ynni a Datgarboneiddio ei thrafod. Bwriad yr adroddiad oedd symud ymlaen â chamau nesaf Rhaglen Mawndiroedd RhCT gan ystyried yn benodol faint a chyflwr mawnogydd a'r opsiynau adfer a rheoli ar gyfer lleihau allyriadau CO2, storio carbon, lleihau perygl llifogydd a gwella bioamrywiaeth.

## Deilliannau

- Canmolodd Aelodau waith y Cyngor yn rhan o brosiect Adfer Mawndiroedd, gan gydweithio â Chyngor Castell-nedd/Port Talbot ar safle fferm wynt Pen y Cymoedd, ac roedden nhw'n teimlo ei fod wedi bod yn llwyddiant ysgubol, yn enwedig o ran ymgysylltu â'r cyhoedd. Roedd Aelodau'n teimlo, wrth i gam nesaf Rhaglen Adfer Mawndiroedd fynd rhagddo yn RhCT, y dylid canolbwyntio ar ehangu ymgysylltiad a chyfranogiad gan y gymuned ar draws RhCT, a hynny i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd y prosiect, hyrwyddo'r gwaith da y mae'r Cyngor yn ei wneud mewn perthynas ag adfer mawnogydd a phwysleisio'r manteision i drigolion yn yr ardal ehangach;

- Cododd Aelodau bryderon mai dim ond tan fis Mawrth 2028 y mae cyllid grant ar gael ar gyfer prosiect Adfer Mawndiroedd, a nodwyd bod parhau â'r darn hanfodol yma o waith yn dibynnu ar gyllid allanol. Pwysleisiodd Aelodau arwyddocâd y gwaith yma a mynegon nhw eu gobaith y bydd hyn yn parhau i fod ar waith ar ôl mis Mawrth 2028;

- Cododd Aelodau bryderon ynghylch torri coed mewn coedwigaeth yng Nghwm Rhondda a'r ffaith bod y boncyffion yn cael eu gadael yno, sut y gallai hyn effeithio ar lif y dŵr oddi ar y mynyddoedd a'r effaith y gallai hyn ei chael ar faterion llifogydd ac ecoleg. Argymhellodd Aelodau y dylid blaenoriaethu hyn yn ail gam y Rhaglen Adfer Mawndiroedd;

- Argymhellodd Aelodau y dylid trefnu ymweliad safle addysgol i bob Aelod Etholedig ymweld ag ardal o fewn RhCT lle mae gwaith adfer mawnog yn digwydd;

- Cafodd Aelodau eu calonogi o glywed bod perthynas waith agos yn bodoli gydag Awdurdodau Lleol cyfagos. Fodd bynnag, roedd Aelodau'n teimlo y gellid gwneud mwy i wella gwydnwch y berthynas rhwng yr Awdurdod a CNC;

- Roedd Aelodau'n teimlo y gallai'r Cyngor wneud mwy i addysgu'r cyhoedd am y rôl bwysig y mae mawnogydd yn ei chwarae ledled RhCT, yn enwedig o ran ei ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol.

# Ymgysylltu ag Aelodau'r Cabinet

Mae sesiynau Ymgysylltu ag Aelodau'r Cabinet yn rhan allweddol o drefniadau craffu'r Cyngor. Maen nhw'n darparu sesiynau strwythuredig i Aelodau i ddwyn yr Adain Weithredol i gyfrif a herio prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r sesiynau yma'n cefnogi tryloywder, yn cryfhau atebolrwydd democrataidd ac yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau gweithredol yn cael eu llywio gan her effeithiol a gwybodaeth gan Aelodau.

Drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag Aelodau'r Cabinet, mae Pwyllgorau Craffu'n gallu canolbwyntio ar ddeilliannau, blaenoriaethau a darpariaeth, gan roi'r cyfle hefyd i fyfyrio ar arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

Yn ystod blwyddyn y Cyngor, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cynnal sesiynau Ymgysylltu ag Aelodau'r Cabinet gydag holl Aelodau'r Cabinet.  Canolbwyntiodd y sesiynau ar gylch gwaith pob un o ddeiliaid portffolio a'r heriau y mae'r awdurdod yn eu hwynebu mewn amgylchedd ariannol a gweithredol sydd dan bwysau cynyddol.

Cwestiynodd Aelodau y Cabinet o ran y cynnydd yn erbyn amcanion lles y Cyngor, effaith pwysau allanol ar ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau, a sut mae'r Adain Weithredol yn cydbwyso uchelgeisiau hirdymor â'r heriau ariannol a'r heriau o ran y gweithlu.

Rhoddodd y sesiynau sicrwydd i'r Aelodau ynghylch cyfeiriad strategol yr Adain Weithredol a thynnwyd sylw at feysydd lle byddai gwaith craffu pellach yn ychwanegu gwerth, yn helpu i lywio rhaglen waith barhaus y Pwyllgor ac yn helpu i lunio blaenoriaethau craffu yn y dyfodol, gan gynnwys meysydd i'w trafod ymhellach gan y pwyllgorau craffu thematig.

# Gweithgorau Craffu

Mae Gweithgorau Craffu yn hanfodol o ran y swyddogaeth graffu. Maen nhw'n rhoi cyfle i Aelodau drafod materion penodol yn fanylach nag sy'n bosibl o fewn amgylchedd ffurfiol y pwyllgor, a defnyddio tystiolaeth, arbenigedd swyddogion a safbwyntiau allanol lle bo'n briodol. Drwy weithio ar draws cylchoedd gwaith Pwyllgorau, mae Gweithgorau'n cefnogi gwaith craffu mwy manwl ac argymhellion gwybodus i sicrhau bod craffu yn ychwanegu gwerth go iawn ac yn cyflawni deilliannau pendant.

Yn ystod blwyddyn yma'r Cyngor, sefydlwyd tri gweithgor ar draws y Pwyllgorau Craffu, gan adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor a materion o ddiddordeb sylweddol i Aelodau a'n cymunedau. Mae'r ffocws a'r gwaith a wnaed gan bob gweithgor wedi'u nodi isod.

## Y Gweithgor Tlodi Plant

Ffurfiwyd y Gweithgor Tlodi Plant yn dilyn Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd gan Aelodau grŵp Plaid Cymru i ymateb i raddfa a chymhlethdod tlodi plant yn y fwrdeistref sirol a'r angen am ddull craffu sydd â mwy o ffocws ac sydd wedi'i arwain gan dystiolaeth, yn y maes yma. Gan weithredu'n weithgor â chyfyngiad amser o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ei bwrpas oedd trin a thrafod sut y gallai'r Cyngor, o fewn ei bŵer, gefnogi plant a theuluoedd yr effeithir arnyn nhw gan dlodi yn well a chyfrannu at dorri cylch anfantais. Daeth y grŵp ag Aelodau Etholedig, swyddogion y Cyngor ac amrywiaeth o bartneriaid allanol ynghyd, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i drafod profiad bywyd teuluoedd ac effeithiolrwydd systemau ac ymyraethau presennol.

Cefnogwyd gwaith y grŵp gan y Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI), a roddodd gefnogaeth ac a helpodd y grŵp i fanteisio ar ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymchwil academaidd, data lleol a phrofiad bywyd. Yn sgil y dull yma roedd modd i'r grŵp ddatblygu argymhellion ymarferol, ar sail tystiolaeth, a oedd â'r nod o wella mynediad at gymorth, lleihau rhwystrau a chryfhau gwaith partneriaeth. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar feysydd lle gall y Cyngor wneud gwahaniaeth pendant, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ei rôl o ddod â phartneriaid at ei gilydd. I gael canfyddiadau llawn ac argymhellion manwl y Gweithgor Tlodi Plant, gweler yr adroddiad llawn, yma.

## Gweithgor Craffu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mewn ymateb i bryderon Aelodau ddechrau 2023 ynghylch a oedd prosiectau buddsoddi mewn ysgolion Band B a gwblhawyd yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, sefydlwyd Gweithgor Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i adolygu detholiad o gynlluniau a nodi gwersi a ddysgwyd. Rhwng mis Medi 2023 a Thachwedd 2024, fe wnaeth y Gweithgor gwrdd bum gwaith a chynnal rhaglen strwythuredig o ymweliadau ag ysgolion, gyda chefnogaeth yr adran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a charfan Graffu'r Cyngor.

I ddechrau, derbyniodd Aelodau sesiynau gwybodaeth gan Swyddogion Addysg a chytunwyd ar holiadur sylfaenol ar gyfer ysgolion. Yna, llywiodd hyn gwestiynau dilynol a ddefnyddiwyd yn ystod yr ymweliadau. Trwy ymgysylltu â Phenaethiaid, staff, Llywodraethwyr a disgyblion, taflwyd goleuni ar effaith Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd ddeilliannau cadarnhaol clir, gan gynnwys gwelliannau i amgylcheddau ysgolion, darparu Cwricwlwm i Gymru yn well, manteision o ran presenoldeb, ymgysylltu, addysgu a dysgu ac ethos cyffredinol yr ysgol. Daeth Aelodau i'r casgliad bod buddsoddiad parhaus ym maes ysgolion yn parhau i fod yn hanfodol.

Nododd y Gweithgor hefyd nifer o heriau a meysydd i'w gwella. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i deilwra prosiectau i gyd-destunau ysgolion unigol, sicrhau cydnabyddiaeth gryfach o lais y disgybl, yn enwedig o ran darparu toiledau, adolygu cynlluniau rheoli traffig a theithio llesol, cynnal asesiadau o'r effaith ar y gymuned ar gyfer pob prosiect yn y dyfodol a darparu cefnogaeth well i ysgolion wrth hyrwyddo defnydd cymunedol ehangach o gyfleusterau.

At ei gilydd, lluniodd y gweithgor 12 argymhelliad i gryfhau a gwella Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) ymhellach yn Rhondda Cynon Taf. Bydd cam 2 y gwaith yn rhan o raglen flynyddol barhaus y Pwyllgor i sicrhau bod y pum ffordd o weithio yn cael eu monitro a'u rhoi ar waith yn barhaus.

Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant ar 25 Gorffennaf, cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Medi 2025, a oedd o blaid yr argymhellion.

I gael canfyddiadau llawn ac argymhellion manwl y Gweithgor Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, gweler yr adroddiad llawn, **yma**.

## Gweithgor Diffibrilwyr

Sefydlwyd gweithgor yn ystod y flwyddyn i drin a thrafod dichonoldeb darparu diffibriliwr achub bywyd ym mhob ysgol ledled Rhondda Cynon Taf. Deilliodd y fenter o Rybudd o Gynnig a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2024, a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd A. Morgan OBE, a'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M. Webber BEM.
Yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025, derbyniodd y Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned adroddiad cychwynnol ar ddarparu diffibrilwyr mewn ysgolion. Gan gydnabod pwysigrwydd ac effaith bosibl y cynnig, cytunodd y Pwyllgor i sefydlu gweithgor pwrpasol i ehangu cwmpas yr adolygiad a thrin a thrafod goblygiadau'r Rhybudd o Gynnig yn llawn.

Arweiniwyd y gweithgor gan swyddogion o'r adran Addysg ac fe elwodd ar arbenigedd a chyfraniadau sawl rhanddeiliad allweddol. Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r sefydliadau canlynol am eu mewnbwn gwerthfawr a'u presenoldeb drwy gydol y broses adolygu:

- Rhaglen Achub Bywyd Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- RCT Heart Heroes
- Cynon Valley Defibrillators

Roedd eu gwybodaeth a'u profiad yn allweddol wrth lywio dealltwriaeth y gweithgor o'r ddarpariaeth gyfredol, ystyriaethau gweithredol, a chyfleoedd i gryfhau gwydnwch y gymuned.
Daeth y gweithgor â'i adolygiad i ben gyda deg argymhelliad â'r nod o gefnogi darpariaeth effeithiol a chynaliadwy o ddiffibrilwyr ar draws pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf. Cyflwynwyd yr argymhellion yma'n ffurfiol i'r Cabinet ar 15 Rhagfyr 2025 i'w hystyried. I gael canfyddiadau llawn ac argymhellion manwl y Gweithgor Diffibrilwyr, gweler yr adroddiad llawn, yma.

# Cydbwyllgorau Craffu

## Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

Ers y newid i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig ac aelodau cyfetholedig anwleidyddol o awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, wedi parhau i graffu ar effeithiolrwydd cyffredinol BGC Cwm Taf Morgannwg.

Ers sefydlu'r egwyddorion craidd yn ystod blwyddyn gyntaf y trefniadau rhanbarthol, cytunodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu ar y Bartneriaeth Cymunedau Diogel ranbarthol, yn dilyn yr adolygiad a'r penderfyniad i sefydlu un Bartneriaeth Cymunedau Diogel ar gyfer rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Yn yr un modd, cytunodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd i graffu ar y Bartneriaeth Ranbarthol. Er budd llywodraethu da ac i ddarparu mecanwaith pellach i'r materion penodol yma gael eu herio gan Aelodau Etholedig mewn amgylchedd craffu, mae'r ddau gyfrifoldeb ychwanegol bellach wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Mae'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi llunio ei flaenraglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf gyda phwyslais ar graffu ar flaenoriaethau craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Ranbarthol, a'u herio. Mae'r flaenraglen waith wedi darparu fframwaith clir a chadarn ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan sicrhau bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Ranbarthol drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd da ar waith.

Craffodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar adroddiad Cadeirydd y BGC, a'i herio, o ran y gofynion arwain, llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y BGC, a nododd feysydd allweddol i ganolbwyntio arnyn nhw er mwyn sefydlu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd da. Penderfynodd Aelodau y byddai'r trefniadau newydd arfaethedig yn darparu dull mwy cryf ac atebol o gyflawni'r amcanion lles ac fel rhan o'i rôl i ddwyn y BGC i gyfrif, bydd yn cynnal adolygiad o'r trefniadau ymhen deuddeg mis i gael gwybod am ei effaith.

Craffodd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r BGC ar y cytundeb rhanbarthol ar gyfer Darparu Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Bobl Hŷn a Phobl sy'n Byw ag Eiddilwch a'u cynhalwyr yn Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynnig dwyn iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd i ddarparu llwybrau cymunedol newydd a chreu model newydd o ofal integredig ar draws cymunedau. Cynhaliodd Aelodau drafodaeth adeiladol ynghylch yr adroddiad a oedd ger eu bron a'r argymhellion, gan gynnwys craffu pellach ar gynnydd y cytundeb rhanbarthol.

Mae'r camau nesaf ar gyfer y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys:

- Cynnal sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb i gryfhau cyfleoedd ymgysylltu a chydweithio Aelodau'r Pwyllgor;
- Craffu ar flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Ranbarthol i gyflawni argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- Monitro gwaith rhoi deilliannau/argymhellion ar waith;
- Rhag-graffu ar Asesiad Llesiant Cwm Taf Morgannwg; a
- Llunio Adroddiad Blynyddol 2025/2026 Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn crynhoi ei waith clir a chynhwysfawr yn ystod Blwyddyn y Cyngor.

## Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cydbwyllgor Corfforedig

Mae Cydbwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru yn gorff rhanbarthol sy'n dwyn ynghyd y deg awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'n gyfrifol am faterion strategol sy'n effeithio ar y rhanbarth cyfan mewn perthynas â datblygiad economaidd, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio strategol hirdymor. Dyma feysydd lle gall penderfyniadau a wneir ar lefel ranbarthol gael effaith sylweddol ar ein cymunedau lleol yma yn RhCT.

Mae Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cydbwyllgor Corfforedig yn gyfrifol am graffu ar y gwaith yma, sy'n cynnwys Aelodau Etholedig o bob un o'r deg awdurdod lleol yn y rhanbarth, a'i rôl yw herio penderfyniadau, adolygu cyflawniad a gwneud argymhellion i sicrhau bod polisïau a buddsoddiadau rhanbarthol yn darparu manteision i gymunedau ledled rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ddatblygu ei rôl fel corff craffu rhanbarthol. Drwy gyfres o gyfarfodydd ffurfiol mae Aelodau wedi trin a thrafod polisïau allweddol a phrosiectau rhanbarthol mawr i sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn darparu gwerth am arian i'n trigolion. Mae Aelodau wedi rhoi sylw arbennig i drafnidiaeth ranbarthol ac wedi craffu ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen hefyd i drin a thrafod y mater yn fanylach. Fe wnaeth y gwaith yma drin a thrafod sut mae buddsoddiad mewn trafnidiaeth yn cael ei flaenoriaethu ar draws y rhanbarth a sut y gall gwelliannau i gysylltedd fod o fudd i gymunedau y tu hwnt i Gaerdydd, gan gynnwys ardaloedd y cymoedd fel yma yn Rhondda Cynon Taf.

Craffodd y Pwyllgor hefyd ar sut mae'r Cydbwyllgor Corfforedig yn rheoli ac yn buddsoddi arian cyhoeddus. Adolygodd y Pwyllgor y Polisi Buddsoddi Cyfrifol a'r fframwaith Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu i sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi rhanbarthol yn cefnogi nodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Ochr yn ochr â'r pynciau yma, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cryfhau ei rôl o ran dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif drwy sesiynau ymgysylltu rheolaidd â deiliaid portffolio ac uwch swyddogion. Mae hyn wedi sicrhau y gall aelodau o bob cwr o'r rhanbarth gwestiynu cynnydd a chodi materion ar ran eu cymunedau.

I drigolion Rhondda Cynon Taf, mae gwaith y Cydbwyllgor Corfforedig yn arbennig o berthnasol oherwydd y gall penderfyniadau rhanbarthol ar fuddsoddi mewn trafnidiaeth a chynllunio strategol ddylanwadu'n uniongyrchol ar gyfleoedd cysylltedd ledled y fwrdeistref. Drwy gymryd rhan yn y broses graffu ranbarthol, mae Aelodau'n gallu sicrhau bod buddiannau ein cymunedau lleol yn cael eu cynrychioli a bod mentrau rhanbarthol yn darparu manteision ar draws y cymoedd, yn ogystal ag ardal ehangach Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

# Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Phartneriaid

Mae'r gwaith craffu gorau yn aml yn digwydd pan fydd ystod amrywiol o bobl yn cael eu cynnwys yn y broses ac mae ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiadau bywyd tebyg i bwnc y prosiect sy'n destun gwaith craffu, yn dod â safbwynt personol i nod terfynol y prosiect/mater craffu sy'n cael ei ystyried neu ei adolygu.

Nododd yr Asesiad Cyflawniad Panel yn glir fod ***partneriaid allanol a rhanddeiliaid eraill wedi siarad yn gadarnhaol am barodrwydd y Cyngor i weithio'n gynhwysol, gydag enghreifftiau'n cael eu rhoi o'r Cyngor yn rhannu ei adnoddau a'i arbenigedd yn y maes partneriaeth i hyrwyddo budd y cyhoedd yn ehangach. Mae hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bartneriaid.***
Mae tri grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi cynnal gwaith craffu eleni, sef y Gweithgor Tlodi Plant, y Gweithgor Craffu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r Gweithgor Diffibrilwyr. Mae pob un wedi rhyngweithio â'r rhai sydd â mewnbwn uniongyrchol i'r pwnc dan sylw, boed yn brofiad bywyd neu'n sefydliadau a all gynnig gwybodaeth werthfawr fel y Penaethiaid, y Llywodraethwyr, staff ysgolion a'r disgyblion a gyfrannodd at y Gweithgor Craffu Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, ac Achub Bywyd Cymru, RCT Heart Heroes a Cynon Valley Defibs a gymerodd ran yn y Gweithgor Diffibrilwyr. Roedd gwaith ar y cyd hefyd â'r Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd (CYBI) a gynorthwyodd y Gweithgor Tlodi Plant i fanteisio'n benodol ar ymchwil academaidd a data lleol i ddod â'r argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghyd.

Mae Pwyllgorau Craffu yn RhCT wedi ymgysylltu â'r cyhoedd eleni drwy sawl ffordd megis annog y cyhoedd i ddod i gyfarfodydd a siarad yn gyhoeddus mewn Pwyllgor, a thrwy gyhoeddi dogfennau allweddol megis calendrau cyfarfodydd a blaen raglenni gwaith sydd ar gael i wella dealltwriaeth o'r broses graffu. Yn aml, caiff agendâu pwyllgorau craffu eu rhannu'n uniongyrchol â nifer o grwpiau fel y Grŵp Cynghori Pobl Hŷn (OPAG) a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (YEPS) pan fydd pynciau o ddiddordeb yn cael eu hystyried. Mae'r Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant yn cynnwys aelodau cyfetholedig sy'n rhoi mewnbwn rheolaidd ac uniongyrchol. Mae rhanddeiliaid eraill wedi mynychu ein cyfarfodydd craffu i gyflwyno adroddiadau a rhannu eu gwybodaeth ar faes penodol megis Heddlu De Cymru yn mynychu'r Pwyllgor Craffu – Trosedd ac Anhrefn i ganolbwyntio ar weithgareddau cydlyniant cymunedol yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a Dŵr Cymru a fynychodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i ymateb i'r adroddiadau Adran 19 a gwblhawyd ac a gyhoeddwyd o dan Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn dilyn Storm Bert.

Mae pwyllgorau craffu wedi gallu dangos tystiolaeth o nifer o achosion lle mae mewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid wedi arwain at newid go iawn mewn perthynas â materion lleol. Rydyn ni'n diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at waith craffu eleni wrth i ni edrych tua'r dyfodol i wella cyfranogiad gan y cyhoedd a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid.

# Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cydnabod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu unwaith eto am eu hymgysylltiad, eu dyfeisgarwch a'u gwaith caled. I'r Cadeiryddion, mae cadw eu pwyllgorau craffu priodol ar y trywydd iawn ac arwain trwy esiampl wedi bod yn ofyniad allweddol wrth reoli blaen raglenni gwaith, hwyluso trafodaethau mewn cyfarfodydd, crynhoi trafodaethau drwy gydol y cyfarfodydd ac wrth gloi'r cyfarfodydd a gallu dangos dull craffu gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. I'r Is-gadeiryddion, mae eu cefnogaeth agos a dibynadwy i'w Cadeiryddion a bod ar gael ar unrhyw adeg a chyflawni swyddogaethau'r Cadeirydd wedi bod yn allweddol.

Mae ymgysylltiad y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion yn cael ei hwyluso trwy fod yn aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, gan ddod â'u profiad a'u gwybodaeth ynghyd i graffu ar y materion cyffredinol a strategol sy'n effeithio ar y Cyngor. Maen nhw hefyd yn dod ynghyd trwy gyfarfodydd i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu i drafod unrhyw faterion sy'n codi neu sydd ar ddod.

Yn bwysig, cynhaliodd y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion ymarfer hunanwerthuso yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi 2025 wrth drafod yr adroddiad a oedd yn seiliedig ar y Fframwaith Hunanwerthuso drafft ar gyfer Craffu yng Nghymru ac a ddaeth yn dilyn adolygiad pen desg a ddatblygwyd i asesu a yw'r swyddogaeth graffu yn Rhondda Cynon Taf yn effeithiol:

Yn dilyn trafodaeth adeiladol ar rinweddau'r adroddiad, yn enwedig y meysydd a awgrymwyd ar gyfer eu gwella, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud:

- Roedd pob Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi gwerthfawrogi rhag-gyfarfodydd fel ffordd o’u cefnogi gyda’u gwaith paratoi cyn y cyfarfod craffu;
- Cefnogaeth wych gan y Swyddogion Cymorth Craffu;
- Ystyriwyd gwaith i wella ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn gadarnhaol drwy ddulliau presennol fel gwasanaeth YEPS y Cyngor;
- Cefnogwyd ffyrdd creadigol o annog cyfranogiad gan y cyhoedd ymhellach;
- Aeth y Cadeiryddion a’r Is-gadeiryddion ati i gydnabod y byddai cael tudalen we gyhoeddus i olrhain cynnydd y gwaith craffu yn ddefnyddiol.

Cytunodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu fod y meysydd i'w hystyried a'r gwelliannau arfaethedig yn ymateb i brofiad ymarferol y trefniadau craffu presennol sydd ar waith yn ymarferol ac yn sicrhau bod strwythurau craffu'r Cyngor yn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan gynnwys craffu cyn gwneud penderfyniadau.

Yn ystod Blwyddyn yma'r Cyngor, derbyniodd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu hyfforddiant gan gydweithwyr CLlLC, ar 8 Gorffennaf 2025. (Mae rhagor am y sesiwn yma o dan yr adran ganlynol, Hyfforddiant, Datblygiad a Chymorth i Aelodau).

Ym mis Gorffennaf 2025, cynhaliwyd gweithdy sgiliau cadeirio pwrpasol ar gyfer pob Cadeirydd ac Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu yn rhan o'n hymrwymiad i gryfhau atebolrwydd ac arweinyddiaeth leol. Bwriad y sesiwn, a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, oedd gwella effeithiolrwydd craffu ledled Rhondda Cynon Taf.

Cafodd yr hyfforddiant ei strwythuro i fod yn rhyngweithiol, gan roi cyfle i Gadeiryddion ddatblygu eu rôl wrth hyrwyddo llywodraethu da a sicrhau bod prosesau craffu yn parhau i fod wedi'u harwain gan aelodau, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys rôl y Cadeirydd wrth lywio rhaglenni gwaith, cwestiynu strategaethau, rheoli cyfarfodydd (gan gynnwys cyfarfodydd o bell a chyfarfodydd hybrid), a datblygu perthnasoedd adeiladol gyda swyddogion, Aelodau'r Cabinet a phartneriaid allanol.
Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd craffu o ran:

- Sicrhau bod penderfyniadau’n cael eu gwneud mewn modd agored, tryloyw ac amserol.
- Gyrru deilliannau gwell ar gyfer cymunedau trwy fonitro cyflawniad a datblygu polisïau yn effeithiol.
- Cryfhau ymgysylltiad â’r cyhoedd a sicrhau bod llais trigolion yn cael ei glywed.

Cefnogwyd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion hefyd i ystyried technegau ar gyfer ymdrin â gwrthdaro, annog trafodaeth, a rheoli ystod o aelodau pwyllgorau â gwahanol raddau o wybodaeth a phrofiad. Trafodwyd hefyd y gwerthusiad ar ôl cyfarfodydd o osod argymhellion CAMPUS, a chynnal momentwm rhwng cyfarfodydd, gyda'r bwriad o wella effaith a gwelededd pwyllgorau craffu.

Roedd yr hyfforddiant yma'n rhan o ddatblygiad ehangach Aelodau Uned Busnes y Cyngor, yn ogystal â chefnogaeth benodol a ddarparwyd gan y Swyddogion Craffu. Mae cefnogaeth o'r fath mewn meysydd megis rhag-gyfarfodydd craffu'n hynod effeithiol mewn amgylchedd strwythuredig i alluogi dull clir ar gyfer Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac aelodau Pwyllgorau Craffu sy'n parchu ymrwymiadau amser, yn sicrhau tryloywder ac yn datblygu llwybrau ymholi clir. Cydnabuwyd y gefnogaeth a ddarparwyd i Aelodau ar draws yr holl Bwyllgorau Craffu yn yr Asesiad Cyflawniad Panel. **Yn ôl y panel, mae gan y Cyngor swyddogaethau craffu a sicrwydd sydd â digon o gefnogaeth ac adnoddau, ac mae'n dangos bod y trefniadau craffu yn gadarn ac yn cael eu cefnogi gan bob grŵp gwleidyddol.**

Mae hyn yn arwydd o ddarparu ymateb wedi’i strwythuro’n dda i anghenion aelodau Pwyllgorau Craffu sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod craffu yn RhCT yn parhau i esblygu'n swyddogaeth hyderus, strategol a gwerthfawr i'r Cyngor.

# Ymchwil a Chraffu

Mae Uned Busnes y Cyngor yn rhoi cyfle i Aelodau gael mynediad at gyfleuster ymchwil pwrpasol. Gall Aelodau gyrchu adroddiadau ymchwil blaenorol drwy glicio yma. Yn ystod Blwyddyn 2025-26 y Cyngor, derbyniwyd ceisiadau ymchwil mewn perthynas â Chymunedau Cynaliadwy a Gwefru Cerbydau Trydan a bydd yr adroddiadau ymchwil yma'n cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor maes o law. Mae Uned Busnes y Cyngor yn croesawu ceisiadau ymchwil gan Aelodau ar amrywiaeth o bynciau gwahanol, a bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn adolygu pob cais.

Mae Data Cymru yn annog Aelodau i ddefnyddio data ac ystadegau yn rhan o'u rôl yn Aelod Etholedig. Mae data a gwybodaeth yn offer hanfodol ar gyfer deall anghenion y cyhoedd ac ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus. Drwy ddefnyddio data yn effeithiol, gall Aelodau helpu i wella gwasanaethau lleol, llywio gwaith llunio polisïau ac ymateb i anghenion y gymuned yn fwy effeithiol. Bydd ymchwil o ansawdd uchel yn helpu Aelodau Pwyllgorau Craffu i ddefnyddio'r data a'r ystadegau i wneud argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n hanfodol er mwyn dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif.

# Edrych Ymlaen at 2026-2027



Bydd yr ychydig flynyddoedd nesaf yn parhau i fod yn heriol i'r Cyngor, gan weithredu fel y mae mewn amgylchedd o adnoddau sy'n lleihau a galw cynyddol am wasanaethau. Felly, mae'n bwysig bod gwaith craffu'n canolbwyntio ar weithgarwch lle gall gefnogi'r Cyngor i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ac wrth sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn parhau i gael eu darparu i'r safonau uchaf posibl. Yn rhan o ddatblygiad pellach gwaith craffu yn y Cyngor, bydd rhaglenni gwaith pwyllgorau yn parhau i ganolbwyntio ar faterion allweddol y mae'r Cyngor a'i drigolion yn eu hwynebu.

- Yn 2026/27, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn anelu at:

    - Parhau i adolygu sut mae gweithgarwch ar draws y Cyngor yn cyflawni uchelgeisiau Cynllun Corfforaethol y Cyngor;
    - Craffu'n fanwl ar gynigion cyllideb y Cyngor cyn i'r Cyngor bennu'r gyllideb a threth y Cyngor yn ffurfiol ym mis Mawrth 2027;
    - Parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a nodi'r pynciau mwyaf perthnasol i graffu arnyn nhw. Dangosodd y nifer uchel o ymatebion i'r arolwg o'n cylchlythyrau i staff, llywodraethwyr ysgolion, undebau llafur a'r sector gwirfoddol fod gwaith craffu eleni wedi cynrychioli pryderon ac anghenion trigolion RhCT yn briodol;
    - Dechrau ei raglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf ym mis Mehefin 2026 fel y gallwn ni ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau allweddol a meysydd sy'n effeithio ar gymunedau RhCT;
    - Cryfhau ymgysylltiad â'r cyhoedd a datblygu perthnasoedd â'n rhanddeiliaid/partneriaid fel y gallwn ni ddwyn gwasanaethau i gyfrif a sicrhau bod ein gwaith craffu yn ychwanegu gwerth go iawn;
    - Defnyddio ein proses deisebau i gefnogi'r broses o lunio rhaglenni gwaith;
    - Ail-edrych ar y broses hunanwerthuso ar gyfer craffu i ddeall a chydnabod yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda a chydnabod lle mae angen i ni wella;
    - Hyrwyddo’r arfer da o gynnal rhag-gyfarfodydd i ddatblygu themâu a llwybrau ymholi sy’n cefnogi Aelodau gyda thrafodaethau da yn eu cyfarfodydd.

# Rhestr Atodiadau

- Aelodaeth Pwyllgorau Craffu 25-26
- Rhestr Termau
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu – Fersiwn Hawdd ei Darllen

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2025 - 2026

RHONDDA CYNON TAF

I gael rhagor o fanylion am gynnwys yr adroddiad yma, e-bostiwch craffu@rctcbc.gov.uk